Llwybr Cadfan - Tywyn i Aberdaron

Dechreuwch eich diwrnod cyntaf o Bererindod yn Eglwys Sant Cadfan, y sefydlwyd ei safle dros 1500 o flynyddoedd yn ôl gan Sant Cadfan ei hun. Ewch ymlaen ar eich taith dros fryniau a phantiau gwyrdd i dawelwch eglwys y Santes Fair a Sant Egryn, yna cewch gyfle i fwynhau awyr y môr ger eglwys arfordirol anghysbell Sant Celynnin.

Eglwys Sant Cadfan
Cychwynnwch ar eich taith yn Eglwys Sant Cadfan yn Nhywyn. Sefydlwyd y safle hanesyddol hwn dros 1,500 o flynyddoedd yn ôl gan Sant Cadfan, a ddaeth o Lydaw ac a sefydlodd gymuned Gristnogol gynnar yma. Mae rhannau o'r eglwys bresennol yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, ac mae'n cynnwys Carreg Cadfan o'r 9fed ganrif ac yr arysgrif arni yw’r enghraifft gynharaf o'r iaith Gymraeg sy’n hysbys.Yn y fan hon, mae eich pererindod yn dechrau. Byddwch yn cerdded dros fryniau gwyrdd hardd, gan basio eglwysi tawel fel eglwys y Santes Fair a Sant Egryn, ac yn gorffen eich diwrnod ar yr arfordir yn Eglwys Sant Celynnin.

Lleoliadau Stampiau: Eglwys Cadfan Sant. Eglwys Y Santes Fair ac Egryn Sant.

Cyfarwyddiadau:

1. Wrth i chi adael yr eglwys, ewch trwy'r bwa chwith sy'n ffinio â'r fynwent a throi i'r chwith, gan ddilyn y ffordd drwy'r tai. Ewch ymlaen ar y ffordd/trac syth am ychydig dros 1km nes i chi gyrraedd yr arwyddion llwybr troed.

2. Dilynwch y llwybr chwith sy'n mynd dros y bont bren a dilynwch y ddyfrffordd nes cyrraedd y bont droed nesaf ar y dde. Ewch dros y bont a cherddwch yn syth ar draws y cae tuag at Aber Dysynni.

3. Ar ôl i'r ardal hon gael ei hadennill o'r môr, daeth yn faes awyr yr Ail Ryfel Byd ac am gyfnod byr yn gae ras.

4. Pan gyrhaeddwch ymyl y dŵr, dilynwch yr arglawdd i'r chwith i gyrraedd pont droed fetel ger ceg yr afon.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Cyfleoedd gwylio adar yn Aber Dysynni; mae'r safle hwn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

5. Croeswch y bont droed fetel ac ewch ymlaen ar hyd y llwybr tarmac nes cyrraedd tro bychan i’r dde sy’n mynd â chi ar hyd ffordd fechan. Trowch i'r chwith a cherdded 340m i gyrraedd troad i'r chwith a Gwersyll Milwrol Tonfanau.

Wedi'i sefydlu ym 1937 er mwyn paratoi ar gyfer yr Ail Ryfel Byd, roedd Gwersyll Milwrol Tonfanau yn arbenigo mewn hyfforddi magnelwyr gwrthawyrennol. Gallai hyd at 1,500 o bobl gael eu lletya ar y safle hwn a helpodd y gwersyll i ddarparu swyddi i bobl leol yn yr ardal.Roedd Tonfanau yn cael ei ddefnyddio tan 1965 pan gaeodd y fyddin y safle, ond ym 1972 ailagorwyd y gwersyll i dderbyn 1,500 o ffoaduriaid o Uganda. Rhagor o wybodaeth.

6. Trowch i'r dde a cherdded ar hyd y ffordd am 1310m, gan fynd heibio'r chwarel ac adeiladau fferm ac o amgylch y penrhyn at arwydd llwybr ceffylau a llwybr ar y chwith. Dilynwch y llwybr ceffylau hwn, gyda’r wal ar y dde a heibio'r tai a'r coed tal nes i chi weld y giât ar ymyl y cae. Cyn i chi gyrraedd y giât, dilynwch y llwybr wrth iddo arwain yn groeslinol i'r chwith ac i fyny'r bryn i gyrraedd giât droed fawr ychydig uwchben brigiad creigiog (hawdd ei gyrraedd o'r ochr chwith).

7. Ar ben y bryn i'r chwith (uwchben y chwarel) mae olion bryngaer Tal y Garreg o'r Oes Haearn.

8. Ar ôl mynd drwy'r giât, dilynwch y llwybr glaswellt sy'n arwain i ffwrdd i'r dde gan ddringo ychydig nes i chi ddod yn agos at y wal eto ar ran uchel o'r tir. Edrychwch i'r cyfeiriad arall i gyfeiriad Aber Dysynni ac fe welwch ben piler ar fryn yn y pellter, cerddwch tuag at hwn nes i chi weld bwlch yn y wal, ar y dde mae giât droed yn arwain i'r cae nesaf.

9. Ar ôl cyrraedd y cae nesaf trowch i'r dde a cherdded ychydig ar i lawr i gyrraedd canol y cae a llwybr glaswellt, trowch i'r dde a cherdded at y giât.

10. Ewch ymlaen trwy ganol y cae nesaf nes i chi gyrraedd agoriad gyda charreg fawr yn y canol. Cerddwch drwy'r bwlch ac yna i gornel dde bellaf y cae. Ewch trwy'r giât ac i lawr y lôn fferm. Cerddwch rhwng adeilad y stablau a'r tŷ nes i chi gyrraedd y ffordd.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

11. Trowch i'r dde a cherddwch 400 metr ar y ffordd nes i chi gyrraedd yr adeilad nesaf gyda cherrig mawr ar ymyl y ffordd. Yna mae giât mochyn yn eich arwain i'r cae ar y chwith. Cerddwch drwy'r cae a'r giât nesaf. Anelwch at y giât ym mhen pellaf y cae hwn, cadwch at y tir creigiog uwch i osgoi'r ardaloedd corsiog.

12. Ewch trwy'r giât hon a dilynwch y ffens i'r dde (gan osgoi tir llawn dŵr) at y giât nesaf yn arwain i'r cae ar y dde. Tua hanner ffordd trwy'r cae hwn mae giât fechan sy'n arwain i'r goedwig.

13. Dilynwch y llwybr troed drwy'r goedwig nes i chi gyrraedd pont fechan letchwith sy'n mynd â chi i'r ffordd.

14. Croeswch y ffordd yn ofalus a cherdded tuag at y tai, gan fynd ychydig i'r chwith a cherdded i fyny'r grisiau mawr concrit sy'n arwain at lwybr troed gyda gwrych ar y ddwy ochr.

15. Dilynwch y llwybr troed hwn wrth iddo arwain trwy gyfres o giatiau bychain nes i chi gyrraedd y cae gyda nant fawr yn rhedeg trwyddo. Dilynwch y llwybr i lawr i'r goedwig a chroesi'r bont sy'n arwain at yr eglwys. Yna mae camfa garreg sy'n arwain at y fynwent ac eglwys y Santes Fair a Sant Egryn, Llanegryn.

Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I ac mae'n adeilad o ddeunydd canoloesol i raddau helaeth gan gynnwys to o'r 15fed ganrif a sgrin ganoloesol ragorol a llofft croglen, a chofebion gwych i'r teuluoedd Owen ac Wynne lleol. Mae'r groglen gerfiedig yn cael ei hystyried yn un o'r enghreifftiau gorau yng Nghymru. Mae yna stori ei bod wedi dod o Abaty Cymer ar ôl Diddymiad y Mynachlogydd, ond nid yw hyn wedi'i brofi. Rhagor o wybodaeth

16. O'r eglwys dychwelwch at y bont gan groesi'r nant yn y goedwig a dilyn y llwybr i fyny ac i'r dde. Ewch trwy'r giât i'r cae a cherddwch i'r gornel dde bellaf ac i mewn i'r cae nesaf.

17. Dilynwch y lôn fferm trwy'r cae hwn tuag at adeiladau'r fferm. Cerddwch i fyny trwy ganol y fferm at y tŷ yn y pen uchaf a dilynwch y lôn sy'n arwain i'r chwith. Ewch trwy'r giât fechan a chadw'r ffens, yna'r wal ar y dde. Ewch ymlaen yn syth a thros y camfeydd dilynol.

18. Ewch dros y gamfa a'r bont fechan a chadwch y wal ar y chwith nes i chi gyrraedd y gamfa garreg ym mhen pellaf y caeau. Ym mhen pellaf y cae nesaf mae camfa garreg arall. Ymunwch â'r lôn fferm a'i dilyn i lawr i'r ffordd.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

19. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i’w phen (trac yw'r rhan olaf) 550 metr ac yna dilynwch y llwybr troed ychydig i’r chwith i'r cae. Dilynwch y trac i'r dde i lawr at y tŷ a ffynnon yn y pen pellaf. Dilynwch y llwybr troed sy'n arwain o amgylch y tŷ a cherdded ar draws y cae i'r twmpath mawr o gerrig.

20. O'r fan hon wynebwch y gogledd a cherddwch ar draws y cae gan gerdded tuag at y môr nes i chi weld camfa arall wedi'i chuddio gan lwyni eithin. Mae’r llwybr nawr yn eich arwain i lawr i eglwys Sant Celynnin, mae'n ddisgyniad/esgyniad serth ac mae rhan ohono yn mynd ar hyd ffordd brysur felly byddwch yn ymwybodol iawn o draffig – cynghorir i chi gymryd gofal.

21. Ewch dros y gamfa a cherdded igam-ogam i lawr y llwybr serth, garw nes i chi gyrraedd y ffordd. Cynghorir i chi gymryd gofal ar y ffordd gul brysur hon. Trowch i'r chwith a cherddwch 250 metr nes i chi gyrraedd yr adeiladau ar y dde, yr isaf ohonynt yw eglwys Sant Celynnin.

▣ Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I, ac mae wedi cadw llawer o'i chymeriad canoloesol, ar ôl cael dim ond ychydig o waith adfer yn y 19eg/20fed ganrif. Darganfuwyd murluniau o'r 17eg ganrif yn 2003, gan gynnwys testunau a ffigwr ysgerbydol memento mori. Mae casgliad sydd bron yn gyflawn o feinciau yn dyddio o tua 1823. Mae'r rhain nid yn unig yn cofnodi enwau a chyfeiriadau trigolion a oedd yn berchen arnynt ond yn cynnwys hierarchaeth gymdeithasol gyflawn o'r ficer a'r boneddigion i'r gweision, gan roi cipolwg diddorol ar hanes cymdeithasol lleol y 19eg ganrif. Rhagor o wybodaeth.

22. Diwrnod 2. O eglwys St Celynin’s Church cerddwch i fyny at y brif ffordd (byddwch yn ymwybodol o’r traffig – cynghorir gofal ar y ffordd gul brysur hon). Trowch i’r chwith a cherddwch 250 metr nes i chi gyrraedd arwydd llwybr troed a giât ar ochr fewndirol y ffordd (gan ddilyn yr un llwybr â’r un i lawr at yr eglwys ar ddiwrnod 1).

23. Cerddwch igam ogam i fyny'r llwybr serth garw nes i chi gyrraedd camfa yn y ffens rh wng llwyni eithin. O'r gamfa cerddwch i fyny (i ffwrdd o'r môr)
ac yn raddol i'r dde nes i chi gyrraeddtwmpath mawr o gerrig. O'r cerrig, ewch ymlaen i me wn i'r tir ac i ochr chwith y tŷ agosaf a dilynwch y llwybr troed o amgylch y tŷ. Dilynwch y lôn

o flaen y tŷ heibio'r ffynnon ac i mewn i'r caenesaf. Ewch i gornel chwith y cae a thrwodd i o chr bellaf yr adfeilion (fel eu bod nhw ar y chwith). Ewch ymlaen ar hyd cefn yr adfail a'r goe dwig nes i chi gyrraedd y gamfa.

24. Dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir o hyn ymlaen (hyd at bwynt 12 a 13).
Cornel chwith pellaf y cae hwn, cae nesaf yr
un chwith, i'r giât nesaf, yna cadwch y ffens ar y chwith. Daliwch ati iddilyn yr arwyddion wrt h iddynt eich arwain trwy'r caeau a'r gatiau.

25. Ar ôl pant
a dwy giât fawr, dringwch i fyny a dilynwch yr arwyddion ac ewch o amgylch y brigiad a'u dil yn wrth i'r llwybr godi dros y bryn. O'r fan
hon ewch i lawr a thrwy'r giât at fwy o adfeilion, gyda lle tân metel cyfan. Ewch dros y gamfa ar ôl mynd heibio'r adfeilion a cherddwch yn syth trwy'r ddau gae nesaf gan ddefnyddio'r b wlch mawr yng nghanol y wal ac yna dilynwch y ffin chwith (agosaf at
y môr) i gyrraedd giât.

26. Cerddwch i lawr i'r giât nesaf ac ar draws pont droed fechan a dilynwch y llethr i lawr i'r giât nesaf ac ymlaen i'r ffordd.

27. Trowch i'r dde a dringo'n serth i fyny'r ffordd am
250 metr heibio'r tai nes i chi gyrraedd grisiau a giât y llwybr troed ar y chwith. Dilynwch y ll wybr glaswellt garw i gyrraedd camfa a phont ac yna heibio'r tai a'r fferm.
Yna dilynwch y lôn fferm nes iddi gwrdd â'r ffordd fach, dilynwch y ffordd serth i lawr i'r chw ith am 250 metr, heibio bryngaer yr Oes Haearn i lawr i'r briffordd.

28. Trowch i'r dde ar y brif ffordd a cherdded am
200 metr, gan fod yn ymwybodol o draffig wrth groesi, nes i chi gyrraedd ffordd sydd ychydi g i'r chwith cyn y bont ffordd (arwyddion ar gyfergorsaf reilffordd Llwyngwril). Dilynwch y ffo rdd heibio'r toiledau a'r maes parcio am 200 metr.
Mae troad ychydig i'r chwith cyn y groesfan reilffordd yn eich arwain i faes parcio'r orsaf.

29. Gyda'r orsaf drenau y tu ôl i chi, cerddwch i fyny'r lôn darmac, cadwch ychydig i'r dde nes i chi gyrraedd y brif ffordd mewn tua 200 metr. Trowch i'r chwith a cherdded ar draws y bont ffordd, gan droi i'r dde,
ac i fyny trwy'r tai, gan aros ar y ffordd (ychydig i'r chwith) i gyrraedd giât yn y pendraw.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

30. Ewch drwy'r giât ac ymlaen yn syth i fyny'r ffordd/bryn.

31. Yna mae'r ffordd yn troi'n llwybr glaswellt garw gydag arwyddion Llwybr yr Arfordir. E wch trwy ddwy giât arall gan ddod allan ar ochrbryn ar lethr gyda gwahanol bentyrrau creigi og i'r dde o'r llwybr.

32. Ewch ymlaen ar hyd y
trac, gan fynd heibio adfeilion ar y chwith a thrwy giât. Yma mae'r trac yn ymuno â ffordd da rmac wrth ymyl Fferm Cefnfeusydd, dilynwch y ffordd wrth iddi arwain i'rdde, gan gadw'r py llau ar y chwith. Croeswch nant sy'n rhedeg wrth ymyl adfail arall a mynd trwy'r giât.

33. Ewch trwy ddwy giât arall, yr
ail ohonynt â chorlannau defaid ar y dde. Ewch ymlaen ar hyd y ffordd heibio nifer o feini hir ion (o’r Oes Efydd yn ôl pob tebyg) a pholyn telegraff (1300 metr o'rpyllau ger
y fferm) nes i chi gyrraedd giât arall gyda maen hir ar y chwith (700 metr o'r polyn telegraff c yntaf).

34. Dilynwch y ffordd drwy'r ardal goedwigaeth am
600 metr nes i chi gyrraedd arwydd llwybr troed gyda thri chyfeiriad arno. O'r fan
hon dilynwch y trac yn syth i'r chwith, cadwch i'r chwith a cherddwch at yr adeiladau.

35. Dilynwch y llwybr wrth iddo arwain i'r dde ac
o amgylch y tŷ, mae mainc braf yma yn cynnig cyfle i werthfawrogi golygfa hardd. O'r fan hon mae'r llwybr yn ymrannu eto. Cerddwch yn syth ac ychydig i'r dde wrth ymyl y polyn tel egraff, rhwng y ddwy wal, arhoswch ar y llwybr hwn gan gadw wal isel i'ch chwith. Gall
y llwybr hwn fod yn fwdlyd.

36. Ewch heibio bwthyn bychan ac ewch ymlaen i lawr drwy'r goedwig i gyrraedd llwybr arall wedi ymrannu yn agos at waelod y dyffryn. Dilynwch y llwybr yn syth i'r dde, sy’n eich a rwain i ffwrddo'r chwarel bell ac i mewn i'r coedwigoedd bedw arian islaw.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

37. Ewch trwy ddwy giât sy'n dod â chi at ymyl y coed.
Gan gadw'r ffens ar y dde, dilynwch y
trac i fynd trwy giât droed sydd ag arwydd llwybr troed arni ac yna ewch ymlaen i ddilyn yr a rwyddionllwybr troed wrth iddynt eich arwain i lawr trwy wahanol giatiau troed nes i chi weld
yr arwydd â'r geiriau Llwybr Cyhoeddus. Dilynwch hwn gan ddilyn y llwybr amlwg, nes ei fod yn ymrannu, dilynwch y llwybr i lawr i'r dde, tuag at y ffordd.

38. Pan fyddwch chi'n cyrraedd y trac, ewch ymlaen heibio'r dreif ac ar draws
y ffordd, gan fynd i mewn eto trwy giât droed sy'n mynd â
chi i lawr i'r briffordd. Byddwch yn ofalus wrth groesi'rffordd brysur hon, ewch i'r chwith ar hyd y ffordd am 75 metr tuag at
y Gofeb Ryfel (cerdded ar ochr dde'r ffordd). Trowch i'r dde i'r ffordd lai sy'n arwain at Gors Arthog.

Mae Cors Arthog wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Dyma un o'r rhannau sy'n weddill o gyforgors a fyddai unwaith wedi gorchuddio llawer o Aber
Afon Mawddach gerllaw ac mae'n lle gwych i weld blodau, gloÿnnod byw, gweision y neid r ac adar hardd a phrin, gan gynnwys heidiau o Bila Gwyrdd a Thitw cynffon-hir. Rhagor o wybodaeth.

39. Yma gallwch naill ai gerdded ar hyd y ffordd gyfan i gael mynediad i'r toiledau yn y wa rchodfa natur (400 metr), neu gallwch gerdded nes i chi gyrraedd y tai (250 metr)
a dilyn y llwybr troed i'rdde, sy'n arwain drwy'r gors. Dilynwch hwn o amgylch y gors, nes i c hi gyrraedd giât droed ac yna ewch dros y bont i gyrraedd Llwybr Mawddach.

40. Trowch i'r dde a cherdded ar hyd Llwybr Mawddach am ychydig llai na 1km nes iddo g yrraedd troad i'r chwith trwy giât bren. Dilynwch y llwybr nes i chi ddod at giât mochyn sy'n eich arwainat y lôn, trowch i'r chwith ar y lôn.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

41. Dilynwch y lôn wrth ymyl yr aber wrth iddi arwain o gwmpas y tai. Cerddwch ar hyd Cilgant Mawddach y tu ôl i'r rhes o dai (troad i'r dde ar ôl y tai) ac ewch ymlaen ar hyd hon, gan gadw at y prif lwybr is wrth ochr yr aber.

42. Yn dibynnu ar y llanw, mae gennych ddau opsiwn i gyrraedd Pont y Bermo. Os yw'r llanw yn isel, gallwch gerdded yn uniongyrchol ar draws o'rman lle mae'r ll wybr yn agor allan i'r aber (300 metr). Mae giât ar yr ochr arall yn arwain at y bont. Neu os yw'r llanw'n uchel, dilynwch y trac imewn i'r tir am 550 metr, yna ychydig cyn cyrraedd gorsaf Morfa Mawddach bydd y llwybr yn cysylltu â llwy br troed y bont.

Agorwyd Pont y Bermo ym 1867 ac mae'n draphont reilffordd bren un trac rhestredig Gradd II* ar draws aber afon Mawddach. Mae'n 820 metr o hyd, a'r unig dr aphont bren fawrsy'n dal i gael ei defnyddio'n rheolaidd ym Mhrydain. Rhagor o wybodae th.

43. Cerddwch ar draws

y bont a chroesi'r brif ffordd, gan droi i'r chwith ac i lawr tuag at y dref am 300 metr. Pan fyddwch chi'n gweld eglwys, croeswch y ffordd tuag at angor mawr mewn gardd fechan ac ewch ymlaen i gerdded i flaen yr harbwr i fwynhau golygfeydd gwych o'rDraphont, Fairbourne a'r mynyddoedd y tu hwnt.

44. ▣Stampiau: Caffi Davy Jones Locker Café, Abermaw/Bermo.

45. (Diwrnod 3b – ewch ymlaen i dudalen 10, paragraff 54). 41. Ar gyfer 3a – Dolgellau. Dechreuwch yn Bath House Cafe ger maes parcio’r promenâd a mynd ymlaen at flaen yr harbwr. Mwynhewch y golygfeydd gwych o’r Bont Reilffordd, Fairbourne a’r mynyddoedd y tu hwnt. Cerddwch o dan bont y rheilffordd a throwch i’r dde i fyny’r allt (gan basio’r Last Inn) i fyny Parkington Terrace am tua 300m. Croeswch y ffordd at Lwybr Troed a Thraphont Barmouth Viaduct.

46. Dilynwch y llwybr troed (a'r trac) i yml gorsaf Morfa Mawddach gan droi i'r chwith i Lwybr Mawddach (mae toiledau ar gael yma).

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

47. Mae Llwybr Mawddach yn 9.5 milltir o hyd ac yn eiddo i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae wedi'i farcio'n glir a gellir ei ddilyn yn hawdd. Mae'n eitha wastad, mae ganddo arwyneb cymharol wastad ac am y rhan fwyaf o'i hyd mae o leiaf 3m o led, ac felly mae'n addas ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r aber wedi'i restru fel safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mae dwy warchodfa RSPB (Taicynhaeaf ac Arthog), a llu o safleoedd hanesyddol wrth i chi gerdded drwy'r dirwedd hardd hon. https://www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/mawddach-valley-arthog-bog/

48. Ar ben gorllewinol Llwybr Mawddach mae ardal gwarchodfa natur Cors Arthog sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Un o'r darnau sy'n weddill o gors gyforgor a fyddai unwaith wedi gorchuddio llawer o Aber Mawddach cyfagos ac yn lle gwych i weld blodau, gloÿnnod byw, gweision neidr ac adar hardd a phrin.

49. Gellir ymuno â Llwybr Mawddach i Ddolgellau, tref farchnad brydferth, mewn sawl man fel Arthog, Penmaenpool/Taicynhaeaf, a Phont y Wernddu. Mae gan y llwybr nifer o fannau picnic ac mae'n gorffen yn Nolgellau.

50. Ym Mhenmaenpool, wrth ymyl Llwybr Mawddach, mae Pont Dollau a bwthyn eiconig Penmaenpool; pont bren hanesyddol a adeiladwyd ym 1879 i gymryd lle croesfan fferi. Mae'n croesi Afon Mawddach, gan gysylltu ffyrdd yr A493 a'r A496. Mae'r bont wedi'i rhestru Gradd II ac mae'n adnabyddus am ei dyluniad a lleoliad hardd gyda golygfeydd godidog.

51. Mae toiledau ar gael ger y Pont Doll a'r cyfle i orffwys / cael lluniaeth yng Ngwesty George III.

Benmaenpool mae Llwybr Mawddach yn parhau am bellter o 2.4 milltir, gan groesi Afon Winion a'r A493 cyn rhedeg yn gyfochrog ag Afon Winion i Marian Mawr (man agored a meysydd chwarae) Dolgellau.

52. Dolgellau yw prif ganolfan dringwyr Cadair Idris. I'r gogledd mae ystâd Dolmelynllyn.

Marian Mawr ewch i Eglwys y Santes Fair drwy droi i'r dde drwy'r maes parcio ac i'r dde eto i Gwyndaf Evans Motors cyn troi i'r chwith i Marian Road sy'n ymuno â Lombard Street.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Mae'r Eglwys yn adeilad rhestredig Gradd II sy'n sefyll ar safle un canoloesol, yn dyddio'n ôl i o leiaf 1254. Mae'r eglwys bresennol yn brin (i Gymru) gan ei bod yn dyddio o'r cyfnod Sioraidd cynnar. Ar agor: 1af Ebrill i 30ain Medi, 9.30yb tan 4.00yp. 1af Hydref i 31ain Mawrth, 9.30yb tan 2.00yp **Rhagor o wybodaeth**

eglwys Santes Fair, dychwelwch i Marian Mawr, trowch i'r dde i Bont Afon Winion (Ffos y Felin) ac i'r chwith dros y bont i Ffordd Bala. Yn y gyffordd, trowch i'r chwith yna'r tro cyntaf i'r dde i Ffordd Pen y Cefn.

53. Cerddwch i fyny Ffordd Pen y Cefn am 750m cyn troi i'r chwith wedi'i arwyddo 'Golf Club' i lawr lôn wledig gul (gyda Choed Pen y Cefn ar y dde). Ar ddiwedd y lôn dilynwch y llwybr cyhoeddus i lawr yr allt tan dod i ffordd ac ymlaen i gerllaw pont Afon Mawddach (Pont Llanelltyd). Trowch i'r dde cyn y maes parcio a cherddwch ar hyd y trac i Abaty Cymer.

Mynachlog Sistersaidd adfeiliedig a sefydlwyd ym 1198 yw Abaty Cymer. Fe'i sefydlwyd dan nawdd Maredudd ap Cynan, ŵyr i Owain Gwynedd. Yr abaty, a gysegrwyd i'r Forwyn Fair, oedd yr unig fynachlog yn rhanbarth Meirionnydd. Rhagor o wybodaeth

54. Ewch yn ôl i'r ffordd a throwch i'r dde i Bont Llanelltyd. Ar ddiwedd y bont, ewch ymlaen am 150m i'r fynwent gan droi i'r dde i lawr trac. Dilynwch y trac am 120m a throwch i'r chwith i ffordd yr A470. Ewch i mynwent Eglwys Illtud Sant sy'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif.

- Eglwys Illtud Sant trowch i'r chwith ac ewch ymlaen i gylchfan yr A470. Trowch i'r dde i'r A496 tuag at Abermaw a'r arhosfan bws T3 (gwiriwch yr amserlen bob amser).

https://mawddachtrail.co.uk
http://dolgellaucycles.co.uk/bike-hire.html

Argymhelliad yr awdur

55. Mae'r rhan fwyaf o Lwybr Mawddach i Dolgellau yn dilyn llwybr troed y ceir mynediad llawn iddo, felly mae llogi beic yn opsiwn gwych ar gyfer y diwrnod hwn. Mae yna

arweinlyfr ar gyfer Llwybr Mawddach hefyd sy’n adrodd hanes yr ardal. Gellir dilyn y llwybr i’r naill gyfeiriad neu’r llall.

56. Diwrnod 3b. Gan ddechrau o flaen yr harbwr, cerddwch ar hyd y promenâd gyda’r môr ar eich chwith ac adeiladau ar eich dde. Ar ôl pasio’r rhannau o dwyni tywod mae gennych yr opsiwn o gerdded ar hyd y traeth neu’r promenâd (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir hyd at bwynt 4).

57. Cerddwch ar hyd y promenâd, 2200 metr. Ar ben pellaf y promenâd, dilynwch y llwybr sy'n arwain at y groesfan reilffordd fechan. Croeswch pan fo’r golau’n wyrdd a dilynwch y ffordd sy'n troelli i fyny i'r briffordd.

58. Ar ôl cyrraedd y briffordd, trowch i'r chwith a cherdded heibio eglwys fechan ar y chwith. Ewch ymlaen am 650 metr nes i chi gyrraedd porth mynwent ac eglwys y Santes Fair a Sant Bodfan, Llanaber.

▣ Sefydlwyd y safle ar gyfer addoli Cristnogol yn y 6ed ganrif gan Sant Bodfan. Mae'r eglwys bresennol yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif er ei bod wedi gweld llawer o waith ehangu ers hynny. Mae dwy garreg o'r 5ed/6ed ganrif ('Cerrig Calixtus'), ag arysgrif Lladin, wedi'u lleoli yn yr eil ogleddol. Rhagor o wybodaeth.

59. Dychwelwch i'r briffordd (trwy'r porth mynwent) a throi i'r chwith heibio'r eglwys gyda'r môr ar y chwith. Croeswch y ffordd a dilynwch yr arwydd llwybr troed i fyny'r ffordd fechan. Dilynwch y ffordd tan i chi i gyrraedd giât, ewch trwy'r giât hon ac yn syth i fyny i'r dde gan ddilyn yr arwydd llwybr troed.

60. Mae'r ffordd gefn rhwng dwy wal yma. Ewch trwy'r giât ac i fyny'r bryn ar y ffordd gefn hon. Dilynwch y ffordd gefn drwy'r giatiau/camfeydd a dau gae agored cyn unwaith eto dychwelyd i ffordd gefn â waliau. Ar ben y ffordd gefn (lle dewch at dwmpath o gerrig, gyda rhannau muriog ar y brig), trowch i'r chwith a chadwch y wal ar y chwith tan i chi gyrraedd giât fechan.

61. Ewch trwy'r giât fechan a cherddwch yn syth at y postyn crwn mawr tua 8m o'ch blaen, o'r fan hon gallwch weld llwybr glaswellt amlwg sy'n ymdroelli i fyny'r bryn. Dilynwch y llwybr hwn nes i chi ddod at wal a chamfa (chwith).

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

62. Ar ôl mynd dros y gamfa dilynwch lwybr glaswellt bychan tuag at ganol y cae ac i fyny ac fe welwch chi olion muriog anheddiad ar y chwith. Mae darn o lwybr garw yn parhau'n syth i mewn i ardal gorsiog, ac ar yr ymyl chwith pellaf fe welwch chi lwybr glaswellt da sy'n arwain i'r chwith ac i fyny nes i chi gyrraedd camfa arall (er mwyn osgoi'r gors gallwch fynd at yr olion rwbel i'r chwith a chadw at y tir uchel, gan gerdded ar ymyl y gors).

63. Ewch dros y gamfa yn y wal a dilyn llwybr cul trwy'r llwyni eithin, unwaith eto yn arwain i fyny i gyrraedd camfa mewn wal sydd gyfochrog â'r môr. Ewch ymlaen eto ar y llwybr glaswellt i gyrraedd twmpathau ponciog (ardal fwyngloddio) ac ail gamfa gyfochrog â'r môr.

Mae'r rhain yn fwyngloddiau Mwyn Manganîs nas defnyddir. Cafodd yr ardal hon ei chloddio yn bennaf o tua 1835 hyd at ddiwedd y 19eg ganrif, yna roedd mwyn o ansawdd gwell o Ewrop ar gael.

64. Trowch i'r chwith ar ôl mynd dros y gamfa a chadwch y wal ar y chwith wrth i chi fynd i lawr i waelod y dyffryn (240 metr). Ewch dros gamfa, dros bont fechan a nant ac ewch drwy'r adfeilion ac aros ar y llwybr gan gadw'r môr ar y chwith.

65. Ewch dros y gamfa hon a chadwch y wal ar y chwith am 675 metr, ewch dros ddwy gamfa arall nes i chi gyrraedd cornel lle mae’r wal yn mynd i gyfeiriad arall. Gadewch y wal a cherdded i'r dde o'r twmpath o'ch blaen ac i'r dde o'r ardal fwyngloddio sydd â ffens a thrwy fwlch mawr yn y wal. O'r fan hon cerddwch yn groeslinol i fyny'r bryn i gyrraedd arwyddbost.

66. O'r arwyddbost dylech allu gweld bwlch yn y wal, gyda wal gerrig dda yn mynd i lawr i'r chwith a wal doredig i'r dde. Ewch trwy hwn a cherddwch gan gadw wal gerrig ar y chwith nes y gallwch groesi i'r cae chwith cyfagos. Cerddwch yn groeslinol i lawr i'r gornel chwith yn y gwaelod lle mae giât fetel.

67. Gyda chorlannau defaid i'r dde, cadwch y wal ar y chwith a cherdded ar hyd llwybr da ond creigiog am 1250 metr. Ewch ymlaen wrth i'r wal newid i ffens, yna wal eto ac yna fe welwch chi giât a chamfa. Ewch dros y gamfa a gadael y waliau, gan fynd yn syth ac ychydig i'r chwith yn y cae ar y llwybr sydd braidd yn aneglur, gan gadw'r môr ar y chwith. Yna mae'r trac yn cyrraedd giât fferm arall a chamfa. Croeswch yma ac fe welwch gasgliad enfawr o gerrig mawr i'r chwith, cadwch at y prif lwybr sy’n mynd ar i lawr i gyrraedd wal gydag arwyddbost cerdded, ewch ymlaen i lawr y bryn, gyda'r wal ar y chwith. Pan

fo’r llwybr yn ymrannu cadwch i'r chwith rhwng y waliau i gyrraedd giât fferm a llwybr tarmac.

68. Ewch drwy'r giât a chadwch i'r dde i groesi'r bont, ar y giât ar y bont ceir yr enw Pontfadog. I ymweld â’r Siambr Gladdu Neolithig, dilynwch y cyfarwyddiadau isod; fel arall ewch ymlaen i gam.

69. Pan fyddwch yn cyrraedd y tai, parhewch ar hyd y ffordd am tua 400 metr i gyrraedd y Siambr Gladdu Neolithig ar ochr chwith y ffordd (os byddwch yn cyrraedd y nant, rydych wedi mynd yn rhy bell). Pan fyddwch yn barod, cerddwch yn ôl i’r tai olaf y buoch yn eu pasio; yn union gyferbyn â’r rhain mae llwybr troed (wedi’i arwyddo) sy’n eich arwain i mewn i’r coetir wrth ochr yr afon.

Mae’r Siambr Gladdu Neolithig hon yn dyddio i tua 4,000 CC. Mae’r heneb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei photensial i gynyddu ein dealltwriaeth o arferion claddu a defodol cynhanesyddol.

70. Cadwch i'r chwith i aros ar y prif lwybr mawr ar hyd glan yr afon am ychydig llai na 2km. Ewch trwy giât droed bren. Cadwch i'r chwith wrth y fainc a mynd i lawr i ddod yn ôl at ymyl yr afon (ond peidiwch â chroesi'r afon, cadwch yr afon ar y chwith bob amser). Ewch dros ddwy nant fechan, heibio cwt pren a thrwy giât fawr. Dilynwch yr afon nes ei bod yn eich arwain at y brif ffordd yn Nhal-y-Bont.

71. Stampiau: Ysgethin Inn. ▣

72. *Dydd 4.* O'r gilfan ar yr A496/Ffordd Ysgethin (wrth ymyl y troad am yr orsaf) ewch dros bont y ffordd a heibio toiledau cyhoeddus Tal-y-Bont. Croeswch er mwyn bod ar ochr chwith y ffordd a mynd heibio 'Tony's Pizzeria' (100 metr o'r afon), gan droi i'r chwith ychydig wedyn. Ewch i lawr dreif graean rhwng tai ac at yr afon. Cerddwch ar y graean y tu ôl i'r carafanau at giât llwybr troed. Ewch drwodd i'r maes gwersylla/cae a cherdded ar draws y cae at giât sy'n arwain i mewn i'r maes carafanau.

73. Dilynwch y ffordd drwy'r maes carafanau i gyrraedd y dderbynfa a'r fynedfa. Wrth fynedfa'r ffordd, trowch i'r chwith a cherdded ar hyd y llwybr rhwng adeiladau i gyrraedd twnnel a giatiau. Ewch trwy'r twnnel a'r giatiau i gerdded wrth ymyl y nant. Cerddwch am 130m at arwydd a chamfa garreg ar y dde (canol y cae) (dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir tan bwynt 13). Ewch dros y gamfa hon a chadwch y wal ar eich chwith i gyrraedd yr

ail agoriad. Cerddwch at gornel y wal sy’n ymwthio allan ar y dde ac yna ewch ymlaen i'r gornel bellaf a chamfa garreg arall.

74. Yn y cae nesaf, sy’n fawr iawn, ewch tuag at yr adfeilion nes i chi gyrraedd y wal sy’n ymwthio allan yng nghanol y cae. Ewch drwy’r giât yma ac yna ewch at yr adfail mawr. Tu cefn yr adeilad hwn, cerddwch yn groeslinol i'r dde er mwyn mynd heibio’r ysgubor ar y dde yng nghanol y cae. Mae llwybr da ar hyd y ffin ar y dde o hanner ffordd drwy’r cae ymlaen.

75. Ewch ymlaen i ben y cae (o flaen yr adeiladau) a mynd trwy'r giât mochyn fawr i'r cae cyfagos. Trowch nawr fel bod eich cefn tuag at yr adeiladau ac rydych yn edrych ar draws y cae at glwstwr o dai. Ar ochr chwith pellaf y cae dylech weld giât mochyn arall. Ewch trwy hon ac yna ewch at y tai a mynd trwy'r giât mochyn agosaf atynt. Cadwch y ffin ar y dde nes i chi gyrraedd ochr arall y cae a giât mochyn yn arwain at y ffordd.

76. Trowch i'r chwith ar y ffordd ac ewch ymlaen am tua 1km, gan fynd heibio safleoedd carafanau, toiledau a maes parcio. Ar ben pellaf y ffordd mae llwybr yn cyrraedd llwybr pren sy'n arwain at draeth Morfa Dyffryn.

77. Trowch i'r dde i fynd ar y traeth a cherddwch y twyni tywod o un pen i’r llall (4k metr). Byddwch yn ymwybodol fod ardal ar gyfer noethlymunwyr ar y traeth hwn, mae digon o arwyddion. Po bellaf y byddwch chi'n cerdded, y mwyaf o gregyn a welwch chi, arwydd eich bod chi'n dod tuag at gyrchfan wyliau boblogaidd Mochras.

78. Pan fyddwch chi'n gweld arwyddbyst rheolaidd a rhes o finiau ar hyd ochr esgair o waith dyn, edrychwch am arwydd llwybr troed sy'n arwain i fyny i'r dde ac oddi ar y traeth. Yma, naill ai dilynwch y llwybr tarmac a chymryd y tro cyntaf i'r dde neu ewch ar draws y cae ar y dde i gyrraedd y toiledau. Gyda'r toiledau ar y chwith, cerddwch heibio a dilyn yr arwyddion llwybr troed a'r llwybr canolog trwy'r twyni.

79. Cadwch i'r dde yn y rhaniad nesaf, yna ewch yn syth heibio troad i'r dde. Wrth y biniau a'r tap dŵr trowch i'r chwith ac ar hyd ochr cae gwersylla. Ewch ymlaen yn syth a cherdded wrth ymyl ardal goediog fechan, gan droi i'r chwith yn y toriad yn y coed, a mynd oddi ar y trac hwn a cherdded ar hyd llwybr troed syth iawn gyda giât llwybr troed ar ei ben. Mae hon yn arwain at lwybr tarmac uchel drwy wlyptir gyda Maes Awyr Llanbedr draw i'r dde.

80. Mae giât llwybr troed ar ddiwedd y rhan hon yn arwain at ffordd fechan. Trowch i'r dde yma, gan gadw at y ffordd wrth iddi fynd o amgylch y maes awyr ac i'r groesfan reilffordd. Ewch dros y groesfan reilffordd a dilynwch y ffordd i'r chwith ac i mewn i'r maes

parcio bychan wrth ymyl yr afon. (Os oes angen amwynderau arnoch, mae’r daith ar droed i bentref Llanbedr yn un fer, ewch ymlaen ar hyd y ffordd i ddod o hyd iddo).

81. Yng nghefn y maes parcio mae llwybr troed a giât sy'n arwain at lan yr afon. Dilynwch hwn a cherddwch ymlaen at bont ddu a gwyn. Ewch dros y bont i groesi afon Artro a cherddwch yn syth o'r bont i ymyl y cae sy’n gyfochrog â'r ffordd. Fe welwch yma lwybr bychan â ffens sy'n mynd ar hyd ymyl y ffordd. Ar ben y rhan fach hon cadwch at yr ymyl wrth i chi gerdded ar hyd y ffordd tuag at nifer o adeiladau a gorsaf Pensarn.

82. Trowch i'r chwith fel pe baech yn mynd i'r orsaf drenau ond croeswch y rheilffordd, gan gerdded drwy'r Ganolfan Awyr Agored at giât y llwybr troed ar yr ochr arall. Ewch i mewn i'r cae mawr a cherdded i'w gornel dde bellaf lle welwch chi bont droed. Croeswch hon a cherddwch i'r chwith ar hyd yr arglawdd mor bell ag y gallwch er mwyn cyrraedd giât a phont droed arall ar y chwith.

83. Ar ôl mynd heibio’r rhain ewch ymlaen ar hyd y llwybr wrth ymyl y nant tan iddo agor allan i ardal werdd fawr. O'r fan hon dylech allu gweld porth mynwent ac eglwys Sant Tanwg, Llandanwg.

Adeiladwyd eglwys Sant Tanwg a welir heddiw yn y 13eg ganrif, ond mae'n debyg y cafodd ei hadeiladu ar safle crefyddol llawer cynharach. Yn y 15fed ganrif, cafodd yr adeilad ei ehangu ac yna ei adael ym 1841 pan adeiladwyd eglwys newydd yn Harlech. Adferwyd yr adeilad ym 1884. Ar hyn o bryd mae'r eglwys restredig Gradd I hon yn gartref i dair carreg ag arysgrifau o'r 5ed/6ed ganrif a dwy garreg â chroesau wedi’u hendorri arnynt (o bosibl o'r anheddiad gwreiddiol). Mae rhan helaeth o'r hen fynwent wedi'i chladdu o dan dwyni. O dan y ffenestr ddwyreiniol allanol mae bedd y bardd a'r clerwr enwog, Sion Phillips, a foddodd wrth groesi o Bwllheli i Landanwg ym 1620. [Rhagor o wybodaeth.]

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

84. Wrth adael yr eglwys, trowch i'r chwith ar ôl mynd trwy’r porth mynwent ac ewch drwy giât y llwybr troed i'r maes parcio. Mae toiledau a chaffi yma. Dilynwch y ffordd allan o'r maes parcio ac ewch ymlaen am 230m i gyrraedd llwybr troed ar y dde cyn i'r rheilffordd groesi'r ffordd. Ewch dros y gamfa garreg i'r cae ac ewch tuag at y gamfa sy'n eich arwain dros y rheilffordd.

85. Ewch dros y gamfa nesaf a thros y gamfa garreg i mewn i gae mawr. Ewch ar draws y cae ac ychydig i'r dde tuag at gamfa garreg arall, yna ewch i'r dde ac ar y llwybr ceffylau rhwng dwy wal. Cadwch y wal ar y dde nes i chi gyrraedd giât sy'n arwain at y briffordd (500m).

86. Byddwch yn ofalus wrth groesi'r ffordd brysur a dilynwch y llwybr troed wrth iddo fynd heibio'r capel. Trowch i'r chwith wrth y lôn ac ewch ymlaen yn syth, gan basio'r troad i'r chwith am y briffordd a dal i fynd i fyny ar hyd y lôn drwy'r tai am tua 2km i gyrraedd Harlech. Ymhellach ar hyd y ffordd mae meinciau sy’n rhoi cyfle i chi fwynhau golygfeydd ysblennydd traeth Harlech, Penrhyn Llŷn a'r mynyddoedd ymhellach i'r gogledd.

87. Ar ben y lôn rydych yn ymuno â'r ffordd trwy Harlech. Trowch i'r dde i'w dilyn, mae maes parcio ar y dde gyda thoiledau. Ewch ymlaen ar hyd y ffordd wrth iddi droi i'r chwith ac i mewn i stryd fawr Harlech. Ar y ffordd gyntaf sy'n arwain i'r chwith (mae’r ail i'r chwith yn arwain i lawr yr ail ffordd fwyaf serth yn y byd!), fe welwch siop hufen iâ wych ac ychydig ymhellach i lawr mae Castell Harlech a'r ganolfan ymwelwyr.

Mae'n debygol y byddai Harlech wedi ei sefydlu tua'r un adeg ag y cafodd y castell ei adeiladu ym 1283. Yn un o 'gylch haearn' Edward I o gestyll yng Ngogledd Cymru, bu’n destun sawl gwarchae, un hyd yn oed wedi ysbrydoli'r emyn enwog "Gwŷr Harlech". Y pentir, sef Cromen Harlech, y mae'r Castell yn sefyll arno yw'r ffurfiant creigiau daearegol hynaf y gwyddys amdano yn y byd. Gyda chopaon mynyddoedd Eryri i’w gweld y tu ôl iddo, mae lleoliad digyffelyb y Castell wedi ei wneud yn un o'r cestyll mwyaf poblogaidd yn Ynysoedd Prydain. Mae Harlech hefyd yn

ymfalchïo yn y ffaith mai yma ceir yr ail ffordd fwyaf serth yn y byd. Rhagor o wybodaeth.

88. *Dydd 5.* 1. Gan gychwyn o'r castell (Harlech uchaf) cerddwch i lawr y ffordd sydd ag arwydd yn cyfeirio at yr orsaf, gan basio'r cerflun ceffyl a marchog ar y dde a'r toiledau ar y chwith.

Cerflun: Mae cerflun Y Ddau Frenin wedi'i ysbrydoli gan stori yn y Mabinogi a gofidiau rhyfel ac mae'n portreadu Brân Fendigaidd (cawr a brenin Prydain) yn cario corff ei nai, Gwern, a laddwyd yn y rhyfel rhwng Cymru ac Iwerddon. Gweler y plac i gael mwy o fanylion.

89. Ar y trydydd troad yn y ffordd dilynwch y llwybr troed i lawr y grisiau ar y chwith, sy'n arwain at y briffordd.

90. Trowch i'r dde ar hyd y briffordd ac yna i'r dde eto islaw'r castell gan gadw'r rheilffordd ar y chwith.

Yn y 13eg ganrif, roedd y môr yn cyrraedd y grisiau yma (sy'n arwain at y castell), sy'n golygu y gellid ailgyflenwi'r castell hyd yn oed pan oedd dan warchae drwy ddefnyddio llongau. (Mae'n debygol y byddai sianel wedi dod i'r fan hon, er y byddai ardal Harlech isaf yn debygol o fod o dan ddyfroedd llanw hefyd).

91. Ewch ymlaen ar hyd y ffordd hon (heibio'r ysgol) nes i'r ffordd ddod i ben (700 metr). Trowch i'r chwith wrth yr ysgubor fach ac ewch dros y groesfan reilffordd i gyrraedd y briffordd.

92. Croeswch y briffordd yn ofalus a throi i'r dde, gan gerdded ar y lôn o flaen y tai gyda'r briffordd yn gyfochrog â chi am 150m. Dilynwch y troad yn y lôn ac ynghanol ychydig o dai i lawr ar y dde mae llwybr troed sy'n arwain trwy'r tai a thu ôl iddynt. Ewch drwy'r giât droed a throi i'r chwith ac yna ar hyd cefn yr adeiladau (dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir tan ddiwedd pwynt 13).

93. Ewch ymlaen ar y llwybr da am 300m tan iddo ymrannu, ewch i'r dde a thros y bont ac yna trwy giât. Cerddwch ymlaen a thros bont arall i mewn i gae mawr. Cadwch y ffens ar y dde tan ychydig dros hanner ffordd ac yna ewch yn groeslinol ar draws y cae i gyrraedd

giât ar y chwith ym mhen pellaf y cae. Ewch ar draws y cae nesaf gan anelu'n fras at ganol yr ochr arall lle mae giât mochyn, ewch trwy hon ac ar draws i'r gornel chwith bellaf a thrwy giât mochyn arall at groesffordd.

94. Trowch i'r dde i gerdded ar hyd y ffordd hir syth am 750m, gyda choedwigoedd ar y chwith i ddechrau. Cerddwch nes i chi weld bod y ffordd yn dechrau gwyro, yma ceir llwybr troed yn arwain i'r chwith, dilynwch hwn i'ch arwain i ran arall o'r ffordd wrth ymyl y domen ysbwriel. Cerddwch yn uniongyrchol ar draws y ffordd a thrwy giât y llwybr troed – **noder; byddwch yn ymwybodol bod anifeiliaid yn pori ar y tir hwn yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn** (defaid, gwartheg a cheffylau). Cadwch y ffens ar y dde nes i chi gyrraedd giât mochyn ar ymyl y cae.

95. Yn y cae nesaf, ewch tuag at y gornel chwith bellaf a thrwy'r giât. Yn y cae nesaf mae giât mochyn i'r chwith wrth i'r ffens gwrdd â'r wal, ewch trwy hon ac ymlaen o flaen y tŷ fferm a thrwy'r brif giât. Dilynwch y prif lwybr i'r chwith ac yna dilynwch yr arwyddion a'r giatiau mochyn, o flaen tŷ arall ac allan drwy’r giât yr ochr arall.

96. Dilynwch y llwybr sy’n mynd wrth ochr y ffens nes i chi weld arwyddbost llwybr troed ar y dde, dringwch ychydig tuag at yr arwyddbost llwybr troed nesaf ac at giât llwybr troed. Ar ôl mynd trwy’r giât, ewch ymlaen drwy'r dyffryn bach a thrwy giât mochyn. Cerddwch ymlaen ac fe gewch olygfeydd o aber Afon Dwyryd a Phortmeirion.

97. Mae'r llwybr glaswellt yn mynd ychydig i'r dde, wrth ymyl yr aber a thrwy giât mochyn. Dilynwch y llwybr amlwg wrth iddo fynd trwy'r caeau, gan aros wrth ymyl yr aber. Wrth i chi agosáu at ymyl y cae, dilynwch y prif lwybr i'r dde trwy'r eithin sy’n arwain at lwybr garw bychan ac adeilad. Trowch i'r dde ar y llwybr hwn a'i ddilyn i gyrraedd giât a ffermdai, ewch trwy'r giât ac i fyny i'r chwith tuag at giât mochyn arall.

98. Cerddwch heibio cefn yr adeiladau ac yna cadwch y ffens ar y dde sy'n arwain i ffwrdd o'r adeiladau. Yn y gornel dilynwch y ffens i'r gornel nesaf. Trowch fel pe baech yn cadw ar hyd y rhan nesaf o'r ffens ond yn hytrach cerddwch ychydig i'r chwith nes y gallwch weld yr arwydd llwybr troed sy'n eich arwain i lawr i'r chwith. Wrth linell y coed mae giât arall a grisiau anwastad sy'n arwain i lawr i mewn i gae. Wrth edrych i fyny o waelod y grisiau dylech allu gweld rhan uchaf eglwys, cerddwch tuag ati ac yna i'r dde tuag at risiau sy'n arwain i fyny tuag at wal y fynwent. Cerddwch i'r dde o ar hyd y wal i fynedfa'r fynwent ac ewch ymlaen i’r eglwys.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

▣ Mae Sant Mihangel yn eglwys o'r 12fed ganrif ac roedd ar un adeg yn eglwys blwyf ardal fawr iawn yn ymestyn hyd at Benrhyndeudraeth. Ger porth yr eglwys mae carreg ag arysgrif Ladin ganoloesol o bwysigrwydd sylweddol. Mae'r testun Lladin, sydd wedi'i arysgrifennu mewn pedair llinell fertigol, wedi'i ail-greu'n betrus fel 'Dyma feddrod Wleder mam Hoedlyw a adeiladodd yr eglwys hon gyntaf yn oes y Brenin Owain'. Gan fod Owain Gwynedd yn weithgar rhwng 1137-70, tybir bod y garreg yn dyddio'n ôl i'r cyfnod hwn.Cofnodir bod pum carreg ag arysgrifau arall ond cawsant eu torri i fyny a'u defnyddio i adfer yr eglwys yn gynnar yn y 1900au. Mae nifer o eglwysi ar hyd Llwybr Cadfan yn cynnwys cerrig o'r fath. Rhagor y wybodaeth

99. Wrth i chi adael y fynwent, trowch i'r chwith, trwy'r giât fach, yna dilynwch wal y fynwent at y peilon trydan – yna at y peilon nesaf yn is yn y cae ac yna i'r gornel chwith bellaf ger y goeden dderw fawr. Ewch drwodd i'r cae nesaf gan gadw'r wal/ffens ar y chwith. Yn y trydydd cae cadwch y ffin ar yr ochr dde, ac ewch tuag at gornel dde y cae a thrwy'r giât fawr. Mae'r llwybr bychan hwn yn dod allan ar lôn wrth ymyl yr aber a warws mawr o'r 19eg ganrif ac mae'n debyg y cafodd ei ddefnyddio pan oedd cychod yn dal i allu cyrraedd yr ardal hon.

Ynys Ianw oedd Llanfihangel-y-traethau yn wreiddiol. Mae map o 1610 yn dangos y gamlas o Dŷ Gwyn (lle mae'r warws a lle byddai'r hen ddoc) bron yr holl ffordd i Gastell Harlech. Yn ddiweddarach ciliodd y môr gan gysylltu'r ynys â'r tir mawr.

100. Trowch i'r dde yma ac yna i'r chwith ar draws blaen y warws gan gyrraedd giât llwybr troed sy'n arwain at yr arglawdd. Ewch ymlaen ar hyd yr arglawdd, trwy 5 giât (a thros groesfan reilffordd), bob amser yn cadw'r afon ar y chwith (500m). Pan fo'r llwybr yn cwrdd â'r ffordd, croeswch y ffordd yn ofalus ac ewch ymlaen ar hyd yr arglawdd gyda'r afon ar y chwith. Ewch heibio pont arall a thrwy'r giatiau (240m), unwaith eto yn cadw'r afon ar y chwith.

101. Ar ben y llwybr troed hwn, lle mae'r llwybr yn cwrdd â'r ffordd (240m), trowch i'r chwith ar y ffordd, yna dros y bont ffordd a chadwch i'r chwith yn y fforch. Croeswch y ffordd a dilynwch yr arwydd llwybr troed i mewn i'r cae. Ewch i fyny yn y cae nes i chi

gyrraedd rhan sy'n culhau i mewn i lwybr troed. Ewch heibio olion camfa a mynd ymlaen ar hyd y llwybr drwy'r coetir, gan gadw'r ffens ar y chwith (400m).

102. Cadwch i'r dde pan fydd unrhyw raniadau mawr yn y llwybr troed, a thrwy giât mewn wal. Cadwch y goedwig a'r ffin ar y dde nes i chi gyrraedd camfa sy'n mynd dros wal ar eich llwybr (230m). Ewch ymlaen ar y llwybr hwn wrth i'r dirwedd agor allan, gan gerdded wrth ymyl wal ychydig o gaeau bach ar y dde. Yng nghornel bellaf y gyfres hon o gaeau, dilynwch y llwybr sydd braidd yn aneglur i'r dde ac i fyny am 200m. Cyn bo hir byddwch chi'n cerdded gyda choed ar y chwith. Mae cornel wal yn cwrdd â'r llwybr, dilynwch y llwybr wrth iddo arwain i lawr i gamfa garreg ac ymlaen i'r ffordd (70m).

103. Trowch i'r dde ar y ffordd a'i dilyn heibio'r hen gapel a'r blwch ffôn i'r gyffordd nesaf. Cadwch i'r chwith yn y gyffordd a dilynwch y ffordd am 730m nes i chi ddod i fan lle mae llwybrau troed ar ddwy ochr y ffordd (un yn risiau serth a charegog yn debyg i gamfa, ar y chwith a thrwy giât llwybr troed a'r llall trwy giât fawr ar y dde). Ewch drwy'r giât i'r dde a cherddwch i lawr y llwybr a mynd heibio tai ar y dde.

104. Pan fydd y llwybr yn ymrannu, dilynwch y llwybr i'r chwith ac yna ewch trwy'r giât dde. Yna cadwch at y llwybr tra sathredig, gan gadw i'r dde wrth lwybr troed bychan ac yna ymlaen drwy'r goedwig nes bod y llwybr yn cyrraedd camfa yn y wal a nant fechan yn arwain at y ffordd. Dilynwch y ffordd i'r chwith ac i fyny i gyrraedd Llyn Tecwyn Isaf, ewch ymlaen ar y ffordd wrth iddi ymlwybro o amgylch y llyn ac yna trowch i'r dde yn sydyn i ddilyn y ffordd i fyny am 500m tuag at eglwys Sant Tecwyn, gyda golygfeydd gwych dros aber Afon Dwyryd.

Yn wreiddiol, roedd gan safle eglwys Sant Tecwyn eglwys y credir iddi ddyddio'n ôl i'r 11eg ganrif arno, gyda cherrig ag arysgrifau yn dyddio nôl i'r cyfnod hwn yn dal yn yr eglwys heddiw. Adeiladwyd yr eglwys bresennol ar ddiwedd y 19eg ganrif. Rhagor o wybodaeth.

105. *Dydd 6.* 1. Gan adael eglwys Sant Tecwyn, trowch i'r chwith a dilynwch lôn fferm gan fynd trwy giatiau'r fferm i aros ar y lôn i gyrraedd Llyn Tecwyn Uchaf. Yn Llyn Tecwyn, cadwch i'r chwith a mynd trwy giât ac yna ewch ychydig i fyny'r bryn cyn troi i lawr i'r chwith a thrwy'r giât sy'n arwain at lwybr glaswellt llydan sy'n mynd i lawr drwy'r dyffryn.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

106. Ewch ymlaen ar y llwybr da hwn, trwy giatiau fferm nes byddwch bron ar waelod y dyffryn lle mae'r llwybr yn troi i'r chwith - cadwch y wal ar y dde gan gyrraedd tŷ a giât. Ewch trwy'r giât a rhwng y tŷ a'r cwt fferm i gyrraedd ffordd.

107. Trowch i'r dde i fynd ar y ffordd darmac a'i dilyn i lawr heibio'r stad o dai i gyrraedd y briffordd. Croeswch y briffordd brysur yn ofalus ac ewch ymlaen ar y ffordd gyferbyn (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir), sy'n arwain tuag at yr aber ac o amgylch pentir mawr, wrth ymyl y rheilffordd. Ewch dros Bont Briwet (a oedd unwaith yn dollbont fechan â gofalwr). Trowch i'r dde trwy giât fetel (ychydig ar ôl y bont) i fyny llwybr tarmac a thrwy 'Cooke', Gwarchodfa Natur Gwaith Powdwr sy'n cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Roedd y Gwaith Powdwr yn ffatri ffrwydron rhwng 1865 a 1995 ac roedd yn cyflogi dros 500 o bobl. Roedd yn cyflenwi ffrwydron i'r diwydiant mwyngloddio yn bennaf, er yn yr Ail Ryfel Byd manteisiwyd ar eu harbenigedd ac fe wnaethant gynhyrchu dros 17 miliwn o grenadau. Roedd y lleoliad anghysbell a'r dyffrynnoedd serth yn berffaith ar gyfer diben y gwaith. Ym 1995 cafodd ei ddatgomisiynu ac fe ddaeth yr Ymddiriedolaeth Natur yn berchen ar y safle. Rhagor o wybodaeth.

108. Cerddwch i fyny'r llwybr tarmac serth gyda golygfeydd dros yr aber. Ewch heibio’r pwll hardd ar y chwith sydd â llawer o greaduriaid y pyllau, gan barhau i ddringo ar y llwybr tarmac. Ar ôl cyrraedd y fainc, ewch heibio i'r dde ac ewch i'r adeiledd pren yn y pendraw, cartref y gwn mawr a ddefnyddiwyd i brofi’r powdr gwn.

109. Dychwelwch at y fainc a throi i'r dde, gan fwynhau golygfeydd panoramig godidog. Ewch i lawr y grisiau concrit ac i'r chwith i lawr y llwybr i ffwrdd o'r adeilad. (Mae llawer o'r adeiladau hyn yn gartrefi i ystlumod ac adar gan gynnwys rhywogaethau prin fel yr Ystlum Pedol Lleiaf). Ewch ymlaen i lawr y llwybr tuag at adeilad ar y gwaelod a dilynwch y llwybr tuag at agoriad mawr gydag adeilad mawr yng nghefn hwn.

110. Mae llwybr anwastad yn mynd i'r chwith o'r adeilad hwn, heibio sied ac at adeilad arall. Ewch oddi yma i lawr ar y llwybr tarmac a’i ddilyn wrth iddo fynd i lawr ac i'r chwith.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Yn is i lawr rydych chi'n mynd heibio meinciau a chofeb i weithwyr gwaith ‘Cooke’ ar yr ochr dde i ffwrdd o'r llwybr. Cadwch yn syth wrth fynd heibio cwt bach i gyrraedd yr allanfa (giatiau gwyn) a giât mochyn sy'n arwain at ystad ddiwydiannol fechan a'r briffordd.

111. Wrth y briffordd trowch i'r dde a chroesi lôn fechan i ddilyn y briffordd am 250 metr. Dewiswch y troad mawr cyntaf i'r dde, gyferbyn â'r orsaf gan ddringo’n serth i Benrhyndeudraeth.

Mae Penrhyndeudraeth - sy'n golygu penrhyn â dau draeth yn dref gymharol newydd. Roedd y tir yn wreiddiol yn gors malaria yn amgylchynu pwll llonydd enfawr ond yn y 1900au cafodd y pwll ei ddraenio ac adeiladwyd y dref. Mae'r Penrhyn hefyd yn cael ei adnabod gan bobl leol fel 'Penrhyn Cocos' gan y byddai'r merched yn casglu cocos o'r aber lleol i'w gwerthu yn y marchnadoedd. Y diwydiant mwyngloddio a gwaith Powdwr Cooke oedd y prif ffynonellau gwaith i'r rhai a oedd yn byw ym Mhenrhyndeudraeth.

112. Pan gyrhaeddwch y gyffordd ar brif ffordd yr A487, trowch i'r chwith i ymweld ag eglwys y Drindod Sanctaidd nid nepell ar y chwith.

▣ **Mae eglwys y Drindod Sanctaidd yn adeilad rhestredig Gradd II fel eglwys blwyf o ganol oes Victoria mewn cyflwr sydd heb newid i raddau helaeth. Edrychwch y tu mewn, ac yna cerddwch o amgylch y fynwent y tu ôl i'r eglwys i gael cyfle i eistedd a mwynhau mwy o olygfeydd dros yr aber, seibiant i’w groesawu.**

113. Dychwelwch at y briffordd, trowch i'r dde a cherddwch nes i chi gyrraedd y groesfan i gerddwyr gyferbyn â siop SPAR. Croeswch y ffordd, cerddwch rownd cornel SPAR a dilynwch y Stryd Fawr nes i chi ddod at ddau faes parcio (170m). Trowch drwy'r maes parcio llai ar y chwith ac i mewn i ardal parc agored, Parc y Mileniwm.9. Cerddwch yn syth drwy'r parc gan gadw'r cyrtiau ar y chwith nes i chi gyrraedd y goedwig a'r llwybr pren. Cerddwch ar hyd y llwybr pren a throi i'r dde lle daw i ben i fynd trwy'r goedwig. Cadwch i'r chwith ar bob rhaniad llwybr, nes bod y llwybr yn dod allan ar ffordd.

114. Trowch i'r dde ar y ffordd hon ac yna i'r chwith i fyny lôn tua 100m o'r llwybr troed. Cadwch i'r chwith a dilynwch y lôn wrth iddi fynd o dan bont y rheilffordd stêm. Ar ôl y bont trowch i'r chwith ac ewch yn syth am 50m, gan ddilyn y llwybr troed bach i'r chwith oddi ar y lôn. Ewch trwy'r giât droed, dros y grisiau a chroesi'r cae mawr sy'n rhedeg yn gyfochrog â Rheilffordd yr Ucheldir. Ar ochr arall y cae hwn (sy'n dal i fod yn gyfochrog â'r rheilffordd) ewch trwy giât y llwybr troed a dilynwch y ffordd i'r gyffordd T.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

115. Wrth y gyffordd T, trowch i'r dde ac i ffwrdd o'r rheilffordd (a'r bont). Dilynwch y ffordd hon (1km), gan gadw i'r chwith ar unrhyw gyffordd, i lawr o dan y bont sy'n cynnal y ffordd osgoi a thros y rheilffordd. Ar ôl cyfres o dai yn agos ar hyd ochr y ffordd, trowch i'r chwith a dringo'r ffordd i'w phen lle mae'n cwrdd â'r briffordd trwy ganol Minffordd.

116. Croeswch y briffordd (gan ddefnyddio'r groesfan ar y chwith) a cherdded tuag at yr arwyddion a'r lôn i Bortmeirion. Pasiwch fynedfa'r ffordd a'r arwyddion am Bortmeirion (50m) a throi i'r dde i lwybr ceffylau Cae Eithin a'i ddilyn am 450m. Mae golygfeydd gwych i'w gweld ar ran olaf y llwybr ceffylau.

Dyluniwyd ac adeiladwyd Portmeirion gan Syr Clough Williams-Ellis rhwng 1925 a 1975. Ar ôl cael ei ysbrydoli gan bentref Eidalaidd, dyluniodd ef i dalu teyrnged i naws Môr y Canoldir. Bu'n lleoliad ar gyfer llawer o ffilmiau, ac ar hyn o bryd mae'n cael ei redeg gan ymddiriedolaeth elusennol. Ffowndri ac iard gychod o ddiwedd y 18fed ganrif oedd y safle yn wreiddiol o'r enw Aber lâ a oedd yn rhedeg gwasanaeth fferi i Ynys.

117. Trowch i'r dde ar y ffordd darmac gyntaf (wrth ymyl tŷ) sy'n eich arwain oddi ar y llwybr ceffylau. Dilynwch hon i'w phen (50m) a chroesi'r ffordd tuag at Bortmeirion gan ddilyn y llwybr ceffylau ar ochr arall y ffordd. Dilynwch y llwybr coediog hwn a mynd trwy'r giât i'r cae lle mae'r llwybr yn ymrannu.

118. Cadwch y ffens ar yr ochr dde, ewch trwy'r cae i'r agoriad llydan ar yr ochr arall ger yr adfeilion. Gyda'r adfeilion ar y dde, trowch i'r chwith ac yna ychydig i'r dde ac i fyny i ddilyn y llwybr trwy'r cae, gan fynd trwy wal. Arhoswch ar y llwybr hwn er mwyn cyrraedd grid gwartheg ac arwyddion llwybr troed. Ewch dros y grid gwartheg a cherddwch yn syth ymlaen at adfeilion fferm (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir i Borthmadog).

119. Cadwch yr adeiladau ar y chwith a mynd heibio nhw i gyrraedd pen y llwybr hwn lle ceir golygfeydd hardd. Trowch i'r dde drwy'r giât. Croeswch y cae hwn a thrwy'r giât i'r coed. Dilynwch y prif lwybr mawr wrth iddo fynd drwy'r goedwig (a giât) ac i orsaf drenau. Pan fo'n ddiogel, ewch trwy'r giât a thros y rheilffordd, gan gerdded nawr tuag at yr orsaf

fechan. Pasiwch fynedfa’r ffordd ar y dde a dilynwch y llwybr ychydig ymhellach i lawr i'r ffordd.

Ym 1832 James Spooner oedd yn gyfrifol am arolygu ac adeiladu Rheilffordd Ffestiniog, a adeiladwyd i gynorthwyo gyda’r gwaith o gludo sylweddau a gloddiwyd i'r arfordir i'w hallforio ar longau. Roedd y llwybr yn galluogi trenau llawn llechi i redeg i lawr drwy ddefnyddio disgyrchiant ac yna defnyddid ceffylau i dynnu'r wagenni gwag yn ôl i fyny'r rheilffordd. Ym 1863 dyfeisiwyd locomotifau stêm arbenigol ar gyfer eu defnyddio ar y rheilffordd gul a oedd yn golygu y gellid cludo mwy o lechi yn gynt. Mae Gweithdy Rheilffordd Boston Lodge yn weithdy atgyweirio a chynnal a chadw, ac mae'n dal i gael ei ddefnyddio.

120. Croeswch y ffordd brysur yn ddiogel a throi i'r chwith, gan gerdded o dan fwa cerfluniol pren ac ymlaen i'r Cob. Gyda golygfeydd o'r mynyddoedd gan gynnwys yr Wyddfa, Cnicht ac eraill yn y cefndir, cerddwch ar hyd y Cob (1450m), neu i’r rhai sydd â diddordeb mawr mewn trenau, gellir cerdded wrth ochr y rheilffordd (defnyddiwch y grisiau ar y gornel sy'n arwain at ran syth o'r Cob a chroesi'r ffordd, gan fynd i fyny’r grisiau ar yr ochr arall).

Adeiladwyd y Cob ym 1811 gan William Maddocks i adennill tir o'r môr. Cymerodd 4 blynedd i'w gwblhau ond y flwyddyn ganlynol roedd angen ei ailadeiladu'n rhannol eto ar ôl iddo gael ei dorri gan lanw uchel a storm. Yn sgil adeiladu'r Cob newidiodd yr aber gan greu harbwr naturiol dwfn (Porthmadog). Ym 1825 adeiladwyd glanfeydd ac erbyn 1873 roedd dros 116,000 o dunelli o lechi yn cael eu hallforio trwy Borthmadog ar dros fil o longau.

121. Ar ben pellaf y Cob rydych chi'n cyrraedd adeilad Premier Inn, trowch i'r dde cyn hwn a chadw i'r dde i fynd trwy lôn â rheiliau metel. Cerddwch ar hyd Cob Crwn, sef ymyl y ddyfrffordd am 700m nes i chi ymuno â lôn, trowch i'r chwith a dilynwch y lôn yn syth i gyrraedd y stryd fawr, neu trowch i'r chwith

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

ychydig ar ôl y rheilffordd i fynd i le agored sydd â meinciau picnic.Crwydrwch o amgylch y siopau ac archwilio Porthmadog (amgueddfeydd ac ati).

Dewisol: ADRAN DAU – Moel y Gest (tirwedd sleiog)

- Cerddwch i ffwrdd o'r estuary, drwy'r stryd fawr i'r cylchfan. Cymerwch y allanfa gyntaf ar y chwith a dilynwch y ffordd (gan basio Aldi a Lidl ar ochr groes y ffordd). Wrth i chi agosáu at y gorsaf tanwydd ar yr ochr arall, dim ond cyn i chi fod yn unol â hi, mae trac ar y chwith yn arwain i ffwrdd o'r ffordd (600 metr o'r cylchfan).
- Cymerwch y llwybr hwn a chadwch i'r dde gan fynd ar hyd llwybr bach. Mae'r llwybr yn cyrraedd bylch yn y wal; cerddwch drwyddo gan gadw i'r dde ar y llwybr am 150 metr. Mae'r llwybr yn rhannu eto ger coed, trosoch i'r chwith y tro hwn a dilynwch y llwybr nes iddo rannu eto (ger wal, 100 metr). Yma trosoch i'r dde cyn y wal.
- Argymhellir bod yn ofalus yn y rhannau canlynol oherwydd y tir garw a ansefydlog. Dilynwch y llwybr i fyny allan o'r coedwig ac drwy bylch yn y wal, cadwch i'r chwith a pharhewch ar hyd y llwybr sy'n dod yn fwy sleiog nes i chi gyrraedd pwynt uchel gyda golygfeydd gwych.
- Mae copa Moel y Gest a'r pwynt trig ar y copa pellaf (700 metr o'r pwynt hwn). I gyrraedd yno, cadwch yng nghanol y creigiau, disgynwch i'r saddl, ac yna cadwch yng nghanol y creigiau wrth i chi godi ar y bryn nesaf. Mae rhai sleidiau bach yn y rhan hon. Parhewch ar hyd y creigiau i gyrraedd y pwynt trig a mwynhau golygfeydd panoramig o'r mynyddoedd a'r môr.
- I ddychwelyd, dilynwch yr un llwybr yn ôl. Cadwch ar y creigiau nôl i'r saddl — byddwch yn ofalus gan fod rhai llwybrau yn arwain i'r ochr anghywir o'r bryn. Parhewch dros y copa nesaf a darganfyddwch y llwybr da sy'n edrych dros dref Porthmadog a'r estuary. Dilynwch hwn i lawr i'r bylch yn y wal, cerddwch drwyddo a dilynwch y llwybr i lawr i'r chwith. Yna trosoch i'r dde wrth y coed bach, ac yna

drwchwch drwy'r bylch yn y wal a disgynwch i'r chwith hyd y byddwch yn cyrraedd y ffordd eto. Trosoch i'r dde i ddychwelyd i Borthmadog.

122. *Dydd 7.* 1. Dechreuwch o dafarn 'The Australia', trowch i'r chwith a cherddwch tuag at orsaf betrol Shell (100 metr). Croeswch y ffordd yn fuan iawn ar ôl yr orsaf betrol a cherddwch ar hyd ffrynt yr harbwr tan i chi gyrraedd maes parcio ar ochr yr harbwr (250 metr). Yma, cerddwch ar ochr dde'r adeilad tal sy'n sefyll ar ei ben ei hun rhwng yr harbwr a'r rhes o dai. Dilynwch y lôn hon y tu ôl i'r adeiladau a heibio'r hen chwarel am tua 550 metr.

123. Ar ben y lôn, dilynwch lwybr troed i fyny ac i'r dde, gydag arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir (dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir o nawr ymlaen hyd at bwynt 5). Mae'r llwybr yma'n mynd â chi i Borth y Gest (150 metr). Mae'n arwain allan i ystad dai. Ewch lawr y lôn ganol tan i chi weld yr arwydd llwybr troed yn arwain i lawr gyda rhai rheiliau. Yna gallwch ddewis naill ai dewis cerdded ar hyd y traeth neu ar y llwybr ar y brig, i gyrraedd maes parcio ar ben pellaf y cildraeth.

124. O'r maes parcio, cerddwch rhwng y ddwy res o dai bychan ar y lôn. Mae'r lôn yn gwyro o amgylch yr aber ac mae llwybr troed mawr yn arwain i ffwrdd i'r chwith, gan aros yn baralel i'r dŵr. Cerddwch ar hyd y llwybr yma. (Mae'r eglwys i'r dde yma.) I ddechrau mae'n arwain ar hyd blaen y tai. Cadwch i'r dde wrth y gyffordd gyntaf, yna i'r chwith wrth i'r llwybr fynd y tu ôl i nifer o dai. Cariwch ymlaen ar y prif lwybr am 470 metr, gan gario'n syth ymlaen wrth gyffordd y llwybr troed.

125. Uwchben 'Rose Cottage' trowch i'r dde ar y dreif, yna i'r chwith i gario ymlaen ar y llwybr troed. Wrth gyffordd nesaf y llwybr (200 metr) trowch lawr i'r chwith tuag at Fae Carreg Samson a'r cwrs golff. Ar ôl archwilio'r bae, ewch yn ôl i 'Rose Cottage' (mae yna lwybr anturus sy'n arwain i fyny o Fae Carreg Samson i'r rhai sy'n awyddus i archwilio).

126. Trowch i'r chwith pan fyddwch chi'n dod allan i drac/dreif 'Rose Cottage'. Bydd y llwybr hwn yn mynd â chi i faes carafannau. Cadwch i'r dde ar y trac hwn tan i chi gyrraedd y bin coch ar gyfer carthion ci. Yma, trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y trac tarmac gan gadw'r pwll a'r maes chwarae ar eich ochr dde. Trowch i'r dde i aros nesaf at y pwll a dilynwch y ffordd i fyny tan i chi weld arwydd llwybr troed syth ymlaen, gan eich arwain i ffwrdd o'r ffordd. Cymerwch y llwybr hwn a dilynwch yr

arwyddion llwybr troed trwy'r caeau a'r coetir. Ar ddiwedd y llwybr hwn mae yna garreg a giât mochyn fetel sy'n arwain allan i'r briffordd.

127. Croeswch y ffordd ac ar bwys giatiau'r Fferm Lama mae yna gamfa garreg. Ewch drosti a chadwch y ffens ar y chwith (mae'n bosib y bydd ceffylau yma). Ewch yn eich blaen (ar drac nawr) tan i chi gyrraedd giât fetel dal ar draws y trac. Ewch drwyddi ac yna dros nant fach yn y trac, yna trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i fyny'n raddol trwy gaeau agored tan i chi gyrraedd fferm a giât llwybr troed gydag arwyddion.

128. Unwaith i chi fynd trwy'r giât, cadwch y wal ar eich ochr dde (gan basio coeden). Ewch ymlaen rhwng y waliau at 'draeth' cerrig â golygfeydd godidog. Ar ddiwedd y llwybr mae giât llwybr troed, ewch drwyddi ac, unwaith eto, cadwch y wal ar y dde. Unwaith i chi basio'r agoriad ar gyfer y giât yn y wal cadwch yn agos at y wal ar y llwybr llai o faint i gyrraedd cornel lle mae pedwar cae yn cwrdd. Ewch drwy giât y llwybr troed a chadwch y wal ar y chwith. Ewch ymlaen heibio cefn bwthyn ac yna trwy'r giât ymlaen i drac.

129. Dilynwch y trac gan basio'r fynedfa i dŷ arall. Ewch ymlaen i lawr y trac a thrwy giât i gyrraedd y briffordd. Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch ychydig (tuag at y bont), croeswch y ffordd pan fyddwch chi gyferbyn â'r arhosfan bysiau a chariwch ymlaen i gerdded tuag at y bont. Trowch i'r dde ar y trac graean sy'n mynd o dan y bont, gydag arwydd am Wern. Unwaith i chi fynd o dan y bont, trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r trac graean rhwng y tai.

130. Mae'r trac yn troi'n llwybr ac yn dilyn wal i'r dde trwy goetir cyn dod at fyngalo mawr cerrig gwynion. Cadwch at gefn y byngalo at y dreif/giât ac ymlaen i lôn graean. Trowch i'r chwith ar y lôn ac ewch ymlaen trwy giât ac i mewn i Bentrefelin gan ddod allan ar y briffordd wrth ymyl y gofeb rhyfel.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

131. Trowch i'r dde ar y ffordd a chadwch lygad allan ar ochr arall y ffordd am arwydd llwybr troed ac arwydd mawr gwyn Eglwys Sant Cynhaearn. Pan fo'n ddiogel croeswch y ffordd a dilynwch arwyddion yr eglwys ar hyd y lôn a thrwy ddwy giât i gyrraedd yr eglwys.

▣ Wedi'i hadeiladu ym 1832, mae'r eglwys Gradd II* fach hon wedi aros yn gymharol gyfan ar hyd y blynyddoedd ac mae'r ardal fewnol hanesyddol i'w gweld o hyd, heblaw am gwpl o ffenestri sydd wedi cael eu newid. Yn sefyll ar yr hyn a oedd yn ynys ar un adeg ar Lyn Ystumllyn, sydd bellach wedi'i ddraenio, mae'r eglwys erbyn hyn dan ofal Cyfeillion Eglwysi Digyfaill. Ymhlith y beddi nodedig mae bedd James Spooner, y syrfëwr a adeiladodd Rheilffordd Ffestiniog, John Ystumllyn, a alwyd hefyd yn Jac Du (Jack Black), David Owen, cyfansoddwr a thelynor dall lleol, yn ogystal ag adeiladwyr llongau a morwyr. Rhagor o wybodaeth

132. O'r eglwys ewch yn ôl trwy'r giât gyntaf ac yna trowch i'r chwith trwy giât llwybr troed i mewn i gae (mae arwyddion). Cadwch y wal ar eich chwith i gyrraedd y gornel, yna ewch ymlaen ar hyd y wal, gan basio'r agoriad a pharhau i gadw'r wal wrth eich ochr. O'ch blaen fe welwch chi agoriad heb giât. Dilynwch y llwybr glaswelltog trwy hwn, ewch ychydig i'r dde o amgylch twmpath ac yna ewch yn syth ymlaen trwy'r cae a rhwng dau dwmpath caregog ar frig llethr fach. O'r fan hon, rhwng y twmpathau hyn, fe ddylech chi allu gweld o'ch blaenau y giatiau yn arwain ymlaen at y ffordd. Dilynwch y llwybr glaswelltog at y giatiau.

133. Pan fyddwch chi ar y ffordd, trowch i'r chwith ar hyd y ffordd a cherddwch i'r fynedfa gydag arwydd 'Ystumllyn'. Cerddwch i lawr y trac hwn ac ychydig i'r dde heibio tŷ mawr at grid gwartheg. Dilynwch y trac trwy giât y llwybr troed ac i fyny i'r fferm. Pan gyrhaeddwch chi'r fferm ewch ymlaen rhwng dwy ysgubor fawr a chadwch at y llwybr ar yr ochr arall iddynt, gan gadw'r wal a'r ffens ar y chwith i gyrraedd ochr y cae a dwy giât. Ewch drwy'r giât ar y chwith i'r cae o'ch blaen a dilynwch y llwybr glaswelltog i'r dde ar hyd ffin y cae tan i'r llwybr fynd am i lawr ac i ffwrdd o'r ffens, gan orffen wrth giât y llwybr troed a'r rheilffordd. Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r rheilffordd i gyrraedd y groesfan (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir nawr hyd at Gricieth).

134. Croeswch yma a cherddwch ymlaen tan i'r llwybr agor i fyny a rhoi'r opsiwn i gerdded ar hyd y traeth. Yma, gallwch chi naill ai barhau i ddilyn y llwybr ac yna troi i'r chwith i gerdded ar hyd y promenâd neu gallwch chi gerdded ar hyd y traeth.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

135. Pan fyddwch chi'n cyrraedd yr orsaf bad achub ar ben pellaf y traeth, ewch i fyny'r ffordd (agosaf at y môr, 60 metr). Wrth y troad i'r dde wrth ymyl y blwch post, gallwch chi naill ai barhau ar y ffordd hon i gyrraedd y castell (100 metr) neu droi i'r dde, mynd dros y rheilffordd ac ychydig i'r chwith i'r briffordd a stryd fawr Cricieth.

Mae tystiolaeth bod yr ardal o gwmpas Cricieth wedi'i anheddu yn ystod yr Oes Efydd, ac mae siambrau bedd a meini hirion yn bresennol yn yr ardal o hyd. Mae safleoedd eraill ym Mhen Llŷn yn awgrymu bod yr ardal wedi'i threfedigaethu gan don o anheddwyr Celtaidd, a archwiliodd Fôr Iwerddon, tua'r 4ydd ganrif Cyn Crist fwy na thebyg. Adeiladwyd Castell Cricieth gan Llywelyn ab Iorwerth tua 1230 ac yn y blynyddoedd wedi hynny, fe'i defnyddiwyd sawl gwaith fel carchar. Datblygodd y dref yn gyrchfan glan môr Fictoraidd boblogaidd ar ôl 1868 pan adeiladwyd rheilffyrdd Arfordir Cymru.

136. *Dydd 8.* 1. Gan ddechrau o Neuadd Goffa Criccieth, cerddwch ar hyd y ffordd gyda'r môr ar eich chwith a throwch i'r dde i fyny'r ffordd gyntaf tuag at Gaernarfon. Bydd ardal eang werdd ar eich ochr dde a chwith wrth i chi gerdded rhan gyntaf y ffordd (200 metr). Parhewch ar y ffordd hon heibio'r ystadau tai mawr tan i chi ddod at gyrion y pentref lle mae'r tai yn dod i ben, ac mae tir fferm o'ch blaen (700 metr).

137. Cerddwch ar hyd yr ymyl ar ochr dde'r ffordd am 260 metr, gan basio'r is-bwerdy ar y chwith. Pan fyddwch chi'n cyrraedd trac ar y dde, cerddwch ymlaen ychydig bach ac fe welwch chi fynedfa llwybr troed ar ochr chwith y ffordd, yn union ar ôl y coed (os byddwch chi'n cyrraedd yr arhosfan bysiau byddwch chi wedi mynd yn rhy bell). Croeswch y ffordd yn ofalus a cherddwch drwy'r giât mochyn i mewn i'r cae.

138. Cerddwch ar hyd ffin y ffens ar y dde yn y cae. Unwaith y byddwch chi tua hanner ffordd dechreuwch wyro ychydig i'r chwith. Yng nghanol y ffens o'ch blaen mae camfa. Unwaith y byddwch chi dros y gamfa cerddwch ar hyd y trac a chroeswch y gamfa nesaf i mewn i gae newydd. Yn y cae yma, byddwch chi'n cerdded ar draws y cae i'r gornel bellaf ar y chwith (mae llwybr cerrig garw ar hyd rhywfaint o'r cae).

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

139. Ewch drwy'r giât mochyn yn y gornel a chadwch y wal/ffens ar y chwith (arhoswch yn yr un cae, peidiwch â mynd trwy'r bylchau yn y wal) i gyrraedd y gornel bellach ar y chwith a giât mochyn arall. Y tro yma, cadwch y wal ar eich dde, ewch dros y bont ac i'r gornel nesaf, a bydd giât mochyn arall mewn llwyni trwchus. Trowch i'r dde ar y trac graean, yna i'r chwith ar y ffordd am 400 metr tan ychydig cyn yr afon.

140. Trowch i'r chwith i lawr y trac cyn cyrraedd y bont dros yr afon. Cerddwch i lawr y trac syth am 200 metr, gan basio'r tŷ ar eich dde. Cadwch lygad allan am arwydd llwybr troed ar y chwith, sy'n pwyntio at fwa/porth drws cerrig cudd ar y dde. Ewch drwyddo ac ymlaen i goetir ac i lawr at yr afon eidylaidd.

141. Parhewch ar hyd llwybr yr afon, gyda'r afon ar eich ochr dde yr holl ffordd am ychydig dros 2km, i gyrraedd giât olaf a phont droed ac yna bryn sy'n arwain i fyny at adeilad cerrig crwn heb do. Dyma fedd y cyn-Brif Weinidog, David Lloyd George.

Magwyd y cyn-Brif Weinidog Rhyddfrydol (o 1916 i 1922) David Lloyd George yn Llanystumdwy. Cymhwysodd fel cyfreithiwr ac arweiniodd hynny at ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a chyfranogiad yn y maes. Arweiniodd y llywodraeth yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae'n cael ei gofio am ei bolisïau diwygio cymdeithasol (gan gynnwys Deddf Yswiriant Gwladol 1911), am ei rôl yng Nghynhadledd Heddwch Paris ac am ei ymgyrch i ddatgysylltu Eglwys Lloegr yng Nghymru, yn ogystal ag i gydraddoldeb i lafurwyr a ffermwyr tenant, a diwygio perchnogaeth tir.

142. Gan sefyll wrth y fynedfa i'r bedd, edrychwch tuag at y ffordd a'r giatiau gyda'r eliffantod â choronau arnynt (dyma'r fynedfa i Amgueddfa Lloyd George i'r rheiny sydd awydd ymweld), trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y llwybr bach tan iddo ymuno â'r ffordd (5 metr). Parhewch i lawr y ffordd* ac yna trowch i'r dde, gan fynd dros y bont.

▣ *I gasglu eich stamp, peidiwch â chroesi'r bont; trowch i'r chwith wrth y gyffordd a cherddwch ymlaen i gyrraedd y dafarn, ac wrth ei hochr mae siop bren fach lle cedwir y stamp.

143. Trowch i'r dde yn syth ar ôl eglwys Sant Ioan Fedyddiwr a cherddwch am i fyny ar y lôn am 450 metr, gan basio'r fferm gwningod. Unwaith y byddwch chi'n cyrraedd y gyffordd-T yn y ffordd, trowch i'r dde a cherddwch ar hyd yr ymyl am 25 metr tan i chi weld giât fferm a chamfa gerrig/pren ar ochr chwith y ffordd. (Mae'r camfeydd nesaf yn rhai uchel).

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Unwaith y byddwch chi yn y cae, cadwch y ffos a'r ffin ar y chwith ac ewch i gornel y cae lle mae dwy gamfa arall a phont dros nant fach. Yma mae mainc picnic braf iawn wedi'i gwneud o bren lleol a'i gosod ar gerrig.

144. Cerddwch yn syth ar draws y cae nesaf gan anelu ychydig i'r dde o'r adeiladau a rhes o goed tal tuag at giât a chamfa. Unwaith y byddwch chi ar y lôn, cerddwch i'r chwith a chroeswch y gamfa nesaf i mewn i'r cae ar y dde. Ewch yn syth ar draws y cae hwn i'r pwynt pellaf (mae llinell y coed yn arwain i lawr ato ac mae ffens yn ymuno ag ef). Ewch dros y gamfa ac ymlaen ar lwybr bach trwy'r goedwig gan gadw'r ffens ar eich ochr dde. Ar ymyl y goedwig, dal wrth ymyl y ffens, mae hanner camfa yn eich gostwng chi i lawr i'r ffordd.

145. Trowch i'r chwith, gan fynd i lawr yr allt ar y ffordd darmac fach am 70 metr, yna dilynwch yr arwyddion llwybr troed i'r chwith sy'n mynd â chi dros y bont dros yr afon, wrth ymyl y rhyd. Parhewch i fynd i fyny'r trac tan iddo ddod allan wrth fferm. Parhewch ar y trac trwy'r fferm ac yna trowch i'r chwith ar y ffordd.

146. Parhewch ar y ffordd am 900 metr, gan basio bythynnod ar y dde, nant, fferm Rhosgyll Bach, dau lwybr troed (yn mynd y naill ochr y ffordd a'r llall) tan i chi gyrraedd y gyffordd nesaf. Trowch i'r dde. Wrth y gyffordd nesaf (ychydig dros 1km o'r gyffordd ddiwethaf), wrth ymyl blwch post ac arwydd ar gyfer llwybr beicio 31a, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd heibio tyddyn prydferth lle mae'r afon yn ymuno â'r ffordd (270 metr).

147. Cariwch ymlaen ar hyd y ffordd am ychydig dros 1km, o amgylch troad sydyn yn y ffordd lle mae'r nant yn gadael y ffordd, gan basio giât mochyn ar y chwith i gyrraedd y gyffordd nesaf, yna trowch i'r dde. Pasiwch fferm Penbryn yna trowch i'r chwith fel petaech am ymweld â'r fferm. Cariwch ymlaen ar hyd y trac graean sy'n arwain trwy'r buarth ac yn syth ymlaen trwy'r cae nesaf (ar y trac graen o hyd). Pan gyrhaeddwch chi'r ysgubor cariwch ymlaen i fyny'r trac sy'n arwain i fyny'r allt ac ychydig i'r chwith.

148. Pan fydd dau gae o'ch blaenau, ewch drwy'r giât ar y dde ac ar draws y cae at y ffin ar yr ochr dde. Ewch dros y bont ac yna'r grisiau cerrig gyda giât fach i mewn i'r cae, gan gadw at ffin chwith y cae hyd at dop y cae lle mae giât yn mynd â chi at drac. Ewch heibio'r tŷ a'r ysguboriau ar y chwith. Parhewch drwy'r giât ac yna'n syth ar hyd y trac gyda ffos fach a ffin ar y chwith. Mae'r giât ar y pen yn arwain at ffordd darmac. Trowch i'r chwith ar y ffordd a dilynwch y ffordd hon ymlaen i bentref Llangybi (530 metr).

Enwyd Llangybi ar ôl y sant Cernyweg, Sant Cybi (neu Cuby yng Nghernyweg), a setlodd yn yr ardal ac a sefydlodd yr eglwys a'r ffynnon yn y 6ed ganrif, cyn iddo gael Ynys Gybi (Holy Island yn Saesneg) yn anrheg.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Wedi'i chysegru i Cybi ynghyd â'r ffynnon mae'r eglwys, a adnewyddwyd ym 1879. Yn y fynwent mae bedd y bardd lleol Daffy Owen (Dew Wen o Elfin). Mae yna hefyd garreg wedi'i cherfio, sy'n dyddio fwy na thebyg i'r cyfnod canoloesol cynnar (wrth wal ogleddol porth y fynwent).

149. Wrth i chi fynd drwy Langybi, fe welwch chi eglwys Sant Cybi ar y dde. Gallwch gael mynediad iddi drwy borth y fynwent ar ben pellaf yr eglwys. Unwaith y byddwch chi'n mynd drwy borth y fynwent, ewch rhwng y ddwy goeden ar ochr chwith y llwybr ac ewch heibio cefn yr eglwys gan ddilyn y llwybr bach i gornel chwith bellaf y fynwent lle mae grisiau cerrig a giât i mewn i'r cae nesaf. Unwaith y byddwch chi yn y cae, dilynwch y ffin ar y chwith ar draws y cae (gan anwybyddu'r bwlch yn y wal). Fe welwch chi lwybr grisiog yn arwain i lawr rhwng y coed i giât mochyn a Ffynnon Sant Cybi.

Credir ers tro bod dŵr y ffynnon yn iachaol, ac mae llawer o bobl wedi teithio cryn bellter i ymdrochi yn ei dyfroedd iachaol. Heddiw, gallwch chi weld dwy siambr ffynnon a bwthyn gofalwr mwy diweddar sy'n dyddio o'r 18fed/19eg ganrif.

150. Unwaith y byddwch chi wedi archwilio'r ffynnon, ewch yn ôl drwy'r giât mochyn a throwch i'r dde, gan gadw at y prif lwybr wrth iddo wyro ychydig i'r chwith i mewn i gae agored mawr, yna parhewch ar hyd llinell y coed hyd at ben pellaf y cae lle mae giât mochyn. Ewch drwy'r giât hon ac yna i fyny i'r chwith i giât arall ac i'r ffordd. Trowch i'r chwith ar y ffordd a chadwch i'r dde heibio i droad yn ôl i mewn i'r pentref (70 metr).

151. Cadwch i'r chwith wrth y gyffordd nesaf a phasiwch Ynysleci i gyrraedd croesffordd.

152. Trowch i'r dde a cherddwch heibio'r adeiladau a thros y bont fach dros y ffordd. Ar y chwith yn union ar ôl y bont mae camfa garreg. Ewch dros y gamfa i mewn i'r cae a chadwch at y ffin ar y chwith a'r nant ar ben pellaf y cae lle mae'n culhau ac yn cyrraedd giât mochyn.

153. Ewch drwy'r giât mochyn a cherddwch drwy'r cae cul i gyrraedd pont dros nant fach. Unwaith y byddwch chi dros y bont, cerddwch i'r dde o'r adeiladau a'r ysgubor i gyrraedd llwybr troed sy'n arwain at lôn.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

154. Ewch yn syth ar draws y lôn a thrwy giât llwybr troed arall i mewn i gae sy'n edrych yn debyg i berllan. Ewch yn syth ar draws y cae i gyrraedd giât bren i mewn i gae mawr.

155. Unwaith y byddwch chi wedi mynd drwy'r giât bren, ewch ymlaen i gornel dde bellaf y cae (gan osgoi'r tir corsiog) lle mae hen giât haearn. Cadwch at y ffin i'r chwith o giât y llwybr troed. Parhewch ar hyd y ffin ar y chwith tan i chi gyrraedd giât llwybr troed arall sy'n arwain i mewn i'r cae ar yr ochr chwith.

giât y llwybr troed (wrth ymyl y coed tal), cerddwch drwy ganol y cae (tuag at y tai) i gyrraedd giât fferm, ac yna eto drwy ganol y cae/trac i gyrraedd giât mochyn a'r briffordd.

156. Trowch i'r chwith a cherddwch 550 metr i mewn i Chwilog i gyrraedd yr orsaf bysiau.

157. *Dydd 9.* 1. Cerddwch i lawr stryd fawr Chwilog, gan basio gorsaf fysiau fawr ar y chwith a siop cigydd ar y dde i gyrraedd pont fach dros y ffordd ar y chwith. Ewch dros y bont (400 metr) ac yna cadwch i'r chwith tan i chi gyrraedd llwybr troed. Cerddwch heibio'r orsaf fysiau ac ar hyd y ffordd tan ychydig cyn y tŷ olaf a'r arwyddion terfyn cyflymder cenedlaethol. Ar ochr dde'r ffordd mae trac, ewch ar hyd y trac a'i ddilyn o amgylch y troad (270 metr). Cariwch yn syth ymlaen gyda'r tŷ fferm ar y dde ac ewch drwy giât y fferm i mewn i'r cae. Unwaith y byddwch chi yn y cae, ewch i'r gornel chwith bellaf at giât fferm arall. O'r giât yma, ewch i'r dde i groesi'r bont fach a'r nant. Cariwch ymlaen i mewn i'r cae gyda'r coed a chadwch at y ffin ar yr ochr dde i gyrraedd giât mochyn, y mae wal fach gyferbyn â hi.

158. Rydych chi nawr ar Lôn Goed am 300 metr. Ewch drwy'r giât mochyn ac i lawr y trac rhwng y caeau a'r tai. Ewch drwy giât mochyn arall a pharhewch rhwng dau bostyn giât carreg â phennau ceffylau arnynt i gyrraedd y ffordd. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y ffordd at y gylchfan. Croeswch i ochr chwith y ffordd ychydig cyn cyrraedd y gylchfan ac yna cerddwch i'r fynedfa gyntaf allan h.y. trowch i'r chwith heibio'r ystad dai.

159. Cariwch ymlaen ar y lôn am 400 metr ac fe welwch chi fod yr afon yn dod i gwrdd â'r ffordd. Cariwch ymlaen ar y lôn hon, gan basio pont ar y chwith a pharhau yn eich blaen o dan y bont reilffordd. Arhoswch ar y trac ar ochr dde'r afon tan i'r llwybr graean ddod i ben. Fe welwch chi'r môr o'ch blaen ac arwydd llwybr troed yn eich cyfeirio chi at lwybr ar y dde. Dilynwch y llwybr i'r dde, gyda'r môr ar eich ochr chwith.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

160. Oddi yma, dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir gan basio parc carafannau i ddechrau. Dilynwch yr arfordir o gwmpas i gyrraedd Porth Fechan a pharhewch yn eich blaen i weld cofadail/piler triongl. Cerddwch o gwmpas y piler ar ochr yr arfordir (efallai y gwelwch chi fannau saethu concrit yma) tan i chi basio'r bryn y mae'r piler triongl yn sefyll arno (100 metr oddi wrtho). Mae'r llwybr yn rhannu yn fuan ar ôl y bryn. Cadwch i'r dde i gyrraedd giât mochyn sy'n eich arwain chi ymlaen ar lwybr glaswelltog trwy lwyni â'ch cefn at y môr.

161. Ewch drwy giât mochyn arall a chariwch ymlaen i gyrraedd grîn bytio. Croeswch y grîn a dewch allan rhwng rhywfaint o wrych a fydd yn eich arwain chi at adeiladau adfeiliedig. Ewch rhwng y rhain i gyrraedd trac graean a pharhewch ar hyd y trac hwn trwy'r cwrs golff. Lle mae'r llwybr yn rhannu wrth y bin carthion cŵn, cadwch i'r chwith a cherddwch tuag at y carafannau, gan eu pasio ar yr ochr dde.

162. Ewch drwy'r giât mochyn sy'n eich arwain i ffwrdd o'r cwrs golff ac ar y trac. Trowch i'r chwith ac yn bellach ar hyd y trac ewch drwy giât a giât mochyn. Yna ewch drwy'r giât a'r giât mochyn ar yr ochr chwith bellaf. Ar y llwybr glaswelltog llydan trowch i'r dde ac ewch drwy'r giât a'r giât mochyn yn y ffens. Yn fuan wedyn, ewch drwy giât a giât mochyn arall. Ewch drwy giât mochyn arall a dilynwch y llwybr mwy amlwg sy'n arwain i fyny allt ac i'r dde.

163. Ewch yn eich blaen ar y llwybr, pasiwch adfail i ffwrdd ar ochr dde'r llwybr. Pan fyddwch chi'n gweld ffens o'ch blaen (ar ymyl y cae), cadwch y ffens ar eich ochr dde a cherddwch tuag at goed bach o'ch blaen i ddod at giât mochyn. Ewch drwy giât gydag arwydd ar gyfer Llwybr yr Arfordir a thuag at y twyni tywod. Ewch dros y twyni tywod ac i'r traeth a throwch i'r dde, tuag at Bwllheli gyda'r môr ar eich ochr chwith.

164. Pan mae'r twyni tywod ar eich ochr dde yn troi'n glogfeini mawr (o gwmpas 1300 metr o'r man lle y dechreuoch chi ar y traeth), cerddwch tuag at ddechrau'r clogfeini a dilynwch y llwybr gan groesi dros y twyni. Cerddwch ychydig i'r chwith tuag at y giât mochyn fach ymlaen i'r ffordd ger y parc carafannau, yna trowch i'r dde a pharhewch ar y ffordd gan fynd dros y rheilffordd ac, yn nes ymlaen, dros bont dros yr afon ac yna tuag at gylchfan fawr.

165. Ewch yn syth dros y gylchfan, gan ddilyn y ffordd tuag at Abererch. Dilynwch y ffordd wrth iddi wyro i'r chwith ac ewch yn eich blaen heibio'r arhosfan bws a'r arwyddion cyflymder, dros y bont ac i mewn i'r pentref. Pasiwch yr ysgol ar y dde, yna'r gofeb ryfel ar y chwith. Yn fuan wedyn, fe welwch chi dŷ bach a'r fynedfa i'r fynwent ac eglwys Sant Cawrdaf.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I oherwydd strwythur cain iawn ei tho sy'n dyddio o ddiwedd y cyfnod canoloesol, ac oherwydd y corau canoloesol prin sydd wedi goroesi sy'n cynnwys misericordiau wedi'u cerfio â rhosod a lilis, a masgiau cerfiedig dyrchafedig ar yr arfau. Mae'r eglwys wedi'i chysegru i'r sant brenhinol o'r 6ed ganrif, Cawrdaf, a oedd fwy na thebyg yn genhadwr i'r ardal leol ac yn un o ddisgyblion Sant Seiriol. Rhagor o wybodaeth.

166. Ewch i lawr heibio'r ysgol a throwch i'r dde i mewn i'r ystad dai gyntaf. Cerddwch at gefn yr ystad i gyrraedd giât lwybr troed i mewn i gae. Trowch i'r dde yn y cae a chadwch at y ffens ar y dde at y gamfa. Unwaith y byddwch chi yn y cae nesaf cariwch ymlaen i gerdded ar hyd y ffens, ond ewch heibio'r agoriad mawr cyntaf (gyda'r cynwysyddion storio) ac edrychwch am arwydd llwybr troed a giât ar yr ochr dde i mewn i'r cae nesaf.

167. Trowch i'r chwith yn y cae, gan basio'r giât at dŷ ac ewch yn eich blaen at gornel chwith gwaelod y cae a thrwy'r giât at y lôn. Trowch i'r dde ac ewch i lawr at y briffordd ac yna trowch i'r chwith. Yna, pan fo'n bosibl, croeswch y ffordd ac ewch lawr y lôn sydd ag arwydd llwybr troed. Ewch drwy'r giât mochyn ac yna cerddwch ychydig i'r dde/syth ymlaen trwy hen byst giât cerrig. (Gall y rhan nesaf hon fod yn fwdlyd, os yw'n wael iawn gallwch chi ddefnyddio'r cae ar y dde, ond cadwch lygad allan am giât y llwybr troed ar ôl y rhyd).

168. Ewch dros y bont gerrig a choncrit dros y rhyd ac ewch yn syth ymlaen. Ewch drwy'r giât mochyn ar y chwith ac yna cadwch at y ffin ar y dde i gyrraedd y gamfa ar gyfer y groesfan rheilffordd. Croeswch pan fo'n ddiogel ac ewch dros y gamfa nesaf sy'n arwain i ffwrdd o'r rheilffordd. Trowch i'r dde o flaen y tŷ gwyn a cherddwch heibio tua hanner dwsin o garafanau, tan i chi weld llwybr ar y chwith rhwng y carafannau. Dilynwch y llwybr hwn ac ewch i lawr y grisiau at y traeth, gan droi i'r dde a cherdded ar hyd y traeth tuag at yr adeiladau yn y pellter.

169. Pan fedrwch chi weld top adeilad siâp cylch o'r traeth, cerddwch tuag ato. Wrth i chi nesáu, fe welwch chi arwyddion llwybr troed yn eich arwain i ffwrdd o'r traeth a heibio adeilad siâp cylch. Ar y briffordd, trowch i'r dde a chroeswch y ffordd, yna cerddwch i'r dde gyda'r harbwr ar eich ochr chwith. Ewch yn eich blaen tan i chi allu troi i'r chwith a thros y

bont troed, gan gadw'r dŵr ar eich ochr chwith a'r tai ar y dde. Cariwch ymlaen tan i chi ddod at ddiwedd y ffordd a throwch i'r chwith i gyrraedd canol stryd fawr Pwllheli.

Rhoddodd Edward, y Tywysog Du, statws bwrdeistref i Bwllheli, tref farchnad brysur, ym 1355. Parhaodd y diwydiant adeiladu llongau a physgota i gynnal y dref ac mae Pwllheli'n dal i gynnal marchnad bob dydd Mercher. Ystyr enw 'Pwllheli' yw 'pwll dŵr halen'.

170. *Dydd 10.* 1. Dechreuwch ar Embankment Road rhwng y ddwy ardal o ddŵr ar gyrion y brif dref. Cerddwch i'r de ar hyd y llwybr wrth ymyl y dŵr ar ochr dde'r ffordd (250 metr) tan i chi gyrraedd ffordd. Trowch i'r chwith a cherddwch gyda'r gwlyptir ar eich dde. Cadwch at y llwybr am 520 metr tan i'r llwybr arwain i ffwrdd o'r ffordd. Gallwch naill ai ddilyn y llwybr pren trwy'r gwlypdir neu fynd yn syth ymlaen ar y ffordd tan i chi gyrraedd y gyffordd.

171. Wrth y briffordd, trowch i'r chwith, croeswch y ffordd ac yna trowch i'r dde wrth y gyffordd fach. Ewch heibio'r tŷ cyntaf ar y dde (330 metr) i gyrraedd llwybr troed. Ewch i lawr y llwybr troed hwn tan y gyffordd gyntaf, cadwch i'r dde tan i chi gyrraedd hen bont lechi. Peidiwch â chroesi'r bont, yn hytrach trowch i'r chwith i ddilyn y llwybr, gan gadw'r gwlypdir ar eich ochr dde.

172. Cyn hir, byddwch chi'n cyrraedd giât mochyn. Ewch drwyddi a chadwch at y llwybr syth wrth iddo fynd â chi o dan y coed a rhwng dwy ran o gwrs golff. Mae giât mochyn arall yn arwain at ben y llwybr hwn ac ymlaen i lôn ac ystad o dai. Parhewch yn syth ymlaen o'r llwybr troed ar y lôn rhwng y tai i gyrraedd llwybr troed ac arwyddion ar gyfer y traeth (byddwch chi'n dilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir nawr tan ddiwedd pwynt 9).

173. Dilynwch y trac sy'n arwain i'r dde ar hyd cefn y twyni tywod am ychydig llai na 2km i gyrraedd giât fawr. I fyny o'r giât ar y chwith mae giât mochyn (gallwch chi hefyd sgramblo i lawr i gerdded ar y traeth, ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dod nôl drosodd mewn pryd

i ailymuno â'r llwybr, **a pheidiwch â chael eich dal gan y llanw**). Cadwch at Lwybr yr Arfordir o Bwllheli i Lanbedrog – 4.5km.

174. Wrth i chi gerdded ar hyd top yr arglawdd gyda'r môr ar eich chwith, byddwch chi'n dod at giât llwybr troed arall. Parhewch ar hyd y llwybr wrth y môr tan i ffordd groesi o flaen y llwybr. Dilynwch yr arwydd llwybr troed yn syth ymlaen i aros ar y llwybr. Mae'r rhan nesaf yn mynd trwy sawl giât mochyn (bydd angen osgoi un sy'n eich arwain am yn ôl i lawr at y traeth), tan i chi gyrraedd llwybr sy'n gwyro ychydig i'r chwith a lawr trwy goed i gyrraedd y traeth ac arwydd llwybr troed.

175. Cerddwch ar hyd traeth Llanbedrog tuag at y cytiau a phasiwch nhw i gyrraedd y man lle mae'r ffordd a'r caffi yn cwrdd â'r traeth ar yr ochr dde. Mae yna dai bach heibio'r caffi ar ochr y ffordd. Rhyw 220 metr i fyny'r ffordd ar y chwith (heibio'r caffi, y tai bach a siop fach) mae eglwys Sant Pedrog, sydd yn ôl ychydig o'r ffordd ar ochr arall nant fach. I fynd i mewn, cerddwch i fyny'r ffordd fel petaech am gerdded heibio iddi, yna trowch i'r chwith ac ewch drwy borth y fynwent a dilynwch y llwybr i fyny at fynedfa'r eglwys.



Roedd Sant Pedrog yn genhadwr ac yn dywysog a'r gred oedd iddo gael ei eni yn Ne Cymru. Fe aeth ar bererindod i Rufain a Jerwsalem (fel nifer o seintiau eraill o'r 6ed ganrif) cyn mynd yn genhadwr a sefydlu eglwysi yng Nghymru, Cernyw ac ardaloedd eraill o'r de-orllewin. Fe yw sant mwyaf adnabyddus Cernyw. Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd II*. Mae'r rhan fwyaf ohoni'n dyddio o'r Canol Oesoedd ac ynddi ceir sgrin a gwydr canoloesol sydd wedi goroesi ac amrywiaeth ddiddorol o wydr lliw a chofebau i'r teulu Love Parry hefyd. Rhagor o wybodaeth.

176. Ar ôl i chi ymweld â'r eglwys, ewch yn ôl allan trwy borth y fynwent a throwch i'r dde, ewch i lawr heibio'r siop ac yna i'r dde eto, gan ddilyn arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir ac Oriel Plas Glyn y Weddw. Mae Plas Glyn y Weddw yn oriel celf a cherfluniau wedi'i lleoli mewn lle arbennig, yn edrych allan dros draeth Llanbedrog ac i lawr yr arfordir tuag at Bwllheli. Mae mynediad am ddim fel arfer ac mae'n werth ymweld â hi (mae caffi yna hefyd).

177. O'r oriel, cerddwch gyda'r môr ar eich ochr chwith tuag at y maes parcio. Ewch ar hyd y llwybr ychydig i'r dde o'r fynedfa i'r maes parcio a'i ddilyn wrth iddo arwain i fyny i'r coetir.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Mae grisiau cerrig serth yn mynd â chi i fyny at olygfan agored, fawr a cherflun y 'Dyn Haearn'.

Roedd y cerflun gwreiddiol hwn yn flaenddelw pren o long wnaeth suddo oddi ar bentir Llanbedrog. Fe'i codwyd yma yn 1919 ond cafodd ei fandaleiddio a rhoddwyd y 'Dyn Haearn', a grëwyd gan gerflunydd lleol yn y 1980au, yn ei le. Yn 2002, disodlwyd y 'Dyn Haearn' (gan ei fod wedi erydu i'r pwynt lle mai dim ond ei esgidiau oedd ar ôl!) â cherflun metel modern, a grëwyd unwaith eto gan gerflunydd lleol ac sydd wedi cael ei adnabod ers hynny fel y 'Dyn Tun'.



178. Gyda golygfeydd godidog, dilynwch y llwybr wrth iddo wyro o gwmpas y pentir, gan gadw'r môr ar eich ochr chwith. Dilynwch yr arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir a chadwch i'r chwith wrth unrhyw gyffyrdd. Pan fyddwch chi'n cyrraedd pen arall y pentir, gyda golygfeydd dros barc carafannau mawr, bydd yna lwybr yn arwain i lawr tuag at y parc carafannau. Mae ychydig o risiau cerrig yn nodi dechrau'r llwybr. Ar waelod y grisiau hyn byddwch chi'n cyrraedd ffordd. Trowch i'r dde ar y ffordd a cherddwch ymlaen ychydig i lwybr troed arall ar y chwith.

179. Dilynwch y llwybr hwn trwy'r coed ac at hen giât llwybr troed ac yna rhwng rhai bythynnod del (Forget Me Not Cottage) at lôn darmac. Trowch i'r chwith ac ewch i lawr yr allt ar y lôn i gyrraedd priffordd (230 metr). Trowch i'r chwith a cherddwch ar yr ymyl am 140 metr tan i chi weld giât mochyn ar ochr arall y ffordd.

180. Croeswch ac ewch drwy'r giât mochyn yma, gan droi i'r chwith unwaith i chi fynd drwyddi, a dilyn y llwybr i fyny'r cae (peidiwch â chroesi ffin yr hen ffens). Ger rhan uchaf y cae, camwch dros nant fach a thrwy ardal garegog sy'n arwain at gamfa gerrig. Dilynwch y llwybr trwy'r cae nesaf i gyrraedd giât fawr. Parhewch am i fyny i weld golygfeydd godidog dros y môr, gan basio heibio hen bostyn giât caregog a thros bont pren fach i gyrraedd nifer o risiau pren a bwthyn Bryn Melyn.

181. Parhewch heibio'r tŷ ar y lôn graean rhwng y tai, yna trowch i'r chwith ar y ffordd ar ôl 450 metr. Wrth waelod y ffordd darmac trowch i'r dde gan fynd trwy giât fawr bren ac i mewn i'r coed. Parhewch ar y llwybr troed hwn i gyrraedd hen giât mochyn a thrac ac yna'r ffordd (300 metr). Trowch i'r chwith ar y ffordd ac ewch i'r gyffordd nesaf (500 metr).

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

(Hanner ffordd ar hyd y ffordd hon mae llwybr troed ar y chwith wrth ymyl yr eglwys, dilynwch hwn i weld Ffynnon Fyw).

Roedd Ffynnon Fyw yn ffynnon sanctaidd bwysig, gyda waliau 6-7 troedfedd o daldra, meinciau cerrig, grisiau a dau bwll. Arferai bererinion ymolchi yn y ffynnon fwy ac yfed o'r ffynnon lai o faint. Gall fod dipyn o dyfiant yno.

182. 13. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd i fynd ar lwybr troed a pharhewch tan iddo droi'n drac (500 metr).

183. Trowch i'r dde i ddilyn trac syth iawn heibio tŷ ar y dde ac yna dros ffordd darmac ac ychydig i'r chwith o'r tŷ nesaf mae yna giât llwybr troed. Parhewch ar y llwybr troed da hwn rhwng y caeau i gyrraedd y ffordd nesaf, yna trowch i'r chwith i lawr y ffordd. Tua 500 metr i lawr y ffordd ar yr ochr dde mae yna risiau cerrig a chamfa bren.

184. Dilynwch y llwybr hwn rhwng dwy ffens tan iddo fynd â chi dros gamfa i mewn i gae mawr agored. Cadwch y ffens ar eich ochr dde tan iddi orffen hanner ffordd i mewn i'r cae. Yna cerddwch o'r fan yna, ychydig i'r chwith, gan gadw at ymyl y twmpath bach i gyrraedd ymyl y cae a giât mochyn ymlaen i'r ffordd wrth ymyl cyffordd. Dilynwch yr arwydd ffordd i Langian a'r maes gwersylla.

185. Arhoswch ar y ffordd yma, gan basio llwybr troed ar eich ochr chwith a chan gadw i'r chwith wrth y gyffordd nesaf. Ychydig i'r chwith, heibio'r cwpl o dai cyntaf mae Eglwys Sant Cian, Llangian. Mae yma garreg Cristnogol Cynnar arall yn y fynwent (fel yn Eglwys Sant Mihangel, Ynys) sydd ag arysgrifau Lladin arni. Rhagor o wybodaeth

Mae rhannau o eglwys Sant Cian yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, ond mae'r rhan fwyaf o'r adeilad presennol yn dyddio o'r 15fed a'r 19eg ganrif. Mae yna garreg o'r 5ed/6ed ganrif ag arysgrif Lladin arni yn y fynwent sy'n awgrymu bod y safle wedi cael ei ddefnyddio o gyfnod llawer cynharach, gyda thechnoleg dyddio radiocarbon o dan un o waliau mynwent yr eglwys yn dynodi bod yna ddeunydd sy'n dyddio nôl i'r cyfnod 430-670 O.C.

186. O'r eglwys, trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd i Lanengan (tua 2km), gan gadw i'r chwith wrth y gyffordd gyntaf a chario ymlaen ar y ffordd trwy'r ardal gwlypdir ac ymlaen i Lanengan.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Roedd Sant Engan (Einion) yn frenin o Ben Llŷn ddiwedd y 5ed ganrif, a roddodd Enlli i Sant Cadfan (a Phenmon ar Ynys Môn i'w frawd Seiriol).
Er bod rhannau o eglwys Sant Engan yn dyddio o'r 13eg ganrif, mae'r rhan fwyaf o'r eglwys yn deillio o adferiad yn yr 16eg ganrif. Mae'r eglwys yn cynnwys pâr o sgriniau cerfiedig

trawiadol o'r 16eg ganrif, ac mae'n bosibl bod un ohonynt wedi'i symud o Abaty Cymer, ger Dolgellau.
Credir bod Ffynnon Engan yn dyddio o ddiwedd yr 16eg ganrif, os nad yn gynharach. Byddai'r safle, sydd bellach wedi'i restru'n Radd II, wedi'i ymweld gan bererinion ac roedd yn enwog am lawer o wyrthiau, yn ogystal â chynnal bedyddiadau.

187. *Dydd 11.* 1. O fynedfa Sant Engan, cerddwch yn syth ymlaen a thrwy borth y fynwent at y ffordd. Trowch i'r dde a pharhewch ar y ffordd am ryw 300 metr tan i chi gyrraedd arwydd llwybr troed ar y dde sy'n arwain at giât mochyn. Cadwch y ffens ar eich dde tan i chi weld yr agoriad yn y ffens. Ewch drwy hwn ac yna cerddwch at y bont yng nghanol y cae. Cerddwch at gornel y ffens sy'n estyn allan i mewn i'r cae lle mae giât droed a dilynwch y ffens ar y dde, dros y grisiau cerrig a'r giât i mewn i'r cae nesaf. Cadwch y ffens ar eich ochr dde nes bod yr afon ar eich dde. Yna ewch drwy'r giât i gerdded ar hyd cefn fferm a thros y gamfa gerrig ymlaen i'r ffordd.

188. Croeswch y ffordd ac ewch ychydig i'r dde tuag at giât llwybr troed (dilynwch yr arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir tan bwynt 5) sy'n eich arwain i mewn i gae gyda nant lydan a phont. Cadwch y ffin ar eich chwith hyd at y wal ar y pen, yna dilynwch y ffin tan tua hanner ffordd ar hyd y cae lle mae giât droed. Cadwch i'r chwith i gyrraedd giât arall ac yna dilynwch drywydd yr afon trwy'r ddau gae nesaf. Yn y cae nesaf, anelwch yn syth am yr adeilad ar ben pellaf y cae.

189. Unwaith i chi gyrraedd yr adeilad, fe sylwch chi ar drac. Cerddwch tuag ato ac yna ewch drwy'r giatiau troed (sydd â phont rhyngddynt). Unwaith y byddwch chi yn y cae, trowch i'r chwith a dilynwch y ffin gan basio'r gornel i gyrraedd giât mochyn. Dilynwch y ffens ar y chwith i gyrraedd giât arall, yna trowch i'r dde a dilynwch y ffin tan i chi gyrraedd giât mochyn sy'n mynd â chi i mewn i'r cae nesaf.

190. Yn y cae nesaf, trowch i'r chwith gan ddilyn y ffin i gyrraedd giât. Cerddwch yn syth ar draws y cae nesaf a thrwy giât, yna anelwch am yr adeilad sydd hanner ffordd ar draws y cae. Ychydig cyn yr adeilad, trowch i'r dde a cherddwch at giât y llwybr troed a phont. Unwaith i chi fynd dros y bont, edrychwch ar draws y cae ac ychydig i'r dde i weld arwydd

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Llwybr yr Arfordir. Cerddwch tuag ato yna ewch ymlaen i'r cae nesaf sydd ychydig yn llai. Cerddwch ymlaen wrth ochr y tŷ, yna ewch ychydig i'r dde lle mae giât droed gudd sy'n mynd â chi at y ffordd.

191. Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch am tua 2km. Wrth groesffordd fach, trowch i'r chwith tuag at wersyll Treheli, gan ddilyn arwydd Llwybr yr Arfordir a phasio Treheli. Ar ôl tua 300m, trowch i'r dde i ail-ymuno â'r briffordd. Croeswch y ffordd, trowch i'r dde a bron yn syth i'r chwith mae yna agoriad i'r llwybr troed. Ewch drwyddo a cherddwch i fyny ac i'r chwith, gan ddilyn y llwybr wrth iddo arwain trwy'r coed a thros sawl gris bach carreg. Pan mae'r llwybr yn rhannu ychydig, cadwch i'r dde, gan barhau am i fyny. Mae'r llwybr yn dod allan wrth ymyl bwrdd gwybodaeth â map arno a thai bach, siop a chaffi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yna mae'n arwain drwodd at Blas yn Rhiw, maenordy o'r 17eg ganrif, gerddi a chaffi. Rhagor o wybodaeth.

192. Cerddwch drwy'r adeiladau cyntaf i gyrraedd y ffordd darmac, yna trowch i'r dde a cherddwch i fyny rhiw serth. Cerddwch am i fyny ar y ffordd am ryw 250 metr, gan gadw i'r chwith ar y ffordd darmac wrth y gyffordd fach i gyrraedd arwydd llwybr troed ar gyfer Llwybr yr Arfordir a chamfa gerrig ar y chwith. Unwaith i chi fynd i mewn i'r cae, cerddwch i'r gornel bellaf ar y dde tuag at giât ac yna, yn y cae nesaf, ewch dros ddwy bont ac yna trwy giât mochyn.

Mae Ffynnon Aelrhiw (sy'n aml wedi'i gorchuddio â llystyfiant) yn fasn hirsgwar o'r 17eg ganrif sydd â statws rhestredig Gradd II. Mae cerrig mwy yn ei hamgylchynu ac mae yna dystiolaeth o seddi cerrig fflat. Roedd pobl yn arfer ymweld â'r ffynnon hon yn y gobaith o gael gwellhad o glefydau'r croen.

193. Yng nghornel bellaf y cae nesaf, mae camfa gerrig a phren ddwbl yn mynd â chi i mewn i'r cae ar draws i'r dde o'r un diwethaf. Ewch dros y gamfa gerrig, cadwch at y llwybr ac yna ewch drwy giât y fferm a thuag at adeilad y fferm. Ewch drwy giât mochyn arall wrth ymyl adeilad y fferm ac yna byddwch chi'n dod allan ar ffordd fach darmac.

194. Ewch i'r dde ar y ffordd am ryw 100 metr tuag at yr arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir sy'n eich arwain i'r chwith i ffwrdd o'r ffordd rhwng rhai adeiladau. Parhewch i lawr y trac tuag at hen giât fawr rydlyd. Unwaith i chi fynd trwyddi, dilynwch y ffin ar eich chwith i lawr llwybr llydan glaswelltog da. Pasiwch res o dai ar eich ochr dde ac ewch drwy giât arall. Pan fyddwch chi'n cyrraedd y tŷ gwyn (Syntir) a'r arwydd llwybr troed, trowch i'r dde.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Ar ôl gadael wal y tŷ gwyn, cerddwch ar hyd y wal sydd ar waelod ffin rhai caeau bach tan i chi gyrraedd y gornel bellaf. O gornel y wal, gadewch y waliau a dilynwch y llwybr sy'n mynd ychydig i fyny ac i'r dde. Dilynwch y llwybr gan basio top rhai caeau bach eraill. Pasiwch heibio brig mawr caregog ar y dde cyn cyrraedd giât mochyn ac arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir.

195. Trowch i'r chwith ac i lawr y llethr ar ôl i chi fynd drwy'r giât mochyn, pasiwch y gwaith carthion a chadwch i'r dde ar unrhyw lwybrau sy'n rhannu, gan barhau ar hyd y ffin. Trowch i'r dde wrth Fferm Penarfynydd (dylech allu gweld yr eglwys nesaf oddi yma), ewch drwy giât y fferm ac yna cerddwch rhwng yr adeiladau tuag at y trac. Ewch ar draws y trac ac i mewn i'r cae ar yr ochr dde. Cadwch y ffin ar eich ochr chwith tan ddiwedd y cae. Yn y cae nesaf, croeswch drosodd i mewn i'r cae ar yr ochr chwith a dilynwch y ffin ar y dde tan i chi gyrraedd giât mochyn a ffordd.

196. Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch at y gyffordd nesaf. Trowch yn sydyn i'r chwith a dilynwch y ffordd tan i chi gyrraedd Eglwys Sant Maelrhys, Llanfaelrhys.

Mae Eglwys Sant Maelrhys yn eglwys ganoloesol, er bod addasiadau hwyrach i'r adeilad. Roedd Sant Maelrhys yn gefnder i Sant Cadfan a Sant Hywyn, ac fe ddaeth i Lŷn gyda nhw yn y 6ed ganrif. Mae'n ddiddorol gweld y rhaniad mewn dosbarthiadau cymdeithasol yma gyda meinciau caeedig ('box pews') ar un ochr a meinciau syml ar yr ochr arall. Roedd y bardd a'r offeiriad R.S Thomas yn ficer yma. Mae'r ystafell/llofft fyny grisiau wedi'i chysegru iddo. Gyda golygfa o Ynys Enlli, gall pererinion eistedd a darllen, neu wrando ar gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'i waith. Rhagor o wybodaeth

197. Ar ôl i chi ymweld â'r eglwys, trowch i'r dde ar y ffordd a pharhewch tuag at y gyfres gyntaf o adeiladau â'r arwydd 'Ysgo'. Cerddwch heibio'r adeilad bach cyntaf i'r chwith ac yna trowch i'r chwith, gan gerdded o amgylch yr adeilad bach hwn i gyrraedd giât mochyn ac arwyddion ar gyfer Porth Ysgo. Ewch i lawr y cwm bach hudolus a throwch i'r dde (oddi ar y llwybr da) tuag at nant fach i gyrraedd pont droed. Parhewch o'r fan hon ar Lwybr yr Arfordir (gan gadw'r môr i'ch ochr chwith a dilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir), dros a thrwy amryw bontydd a giatiau mochyn tan i chi ddod amgylch pentir lle byddwch chi'n gallu gweld ar draws y traeth i Aberdaron.

198. O'r giât mochyn lle gallwch chi weld Aberdaron: Ewch dros bont fach a thrwy giât mochyn arall sy'n dechrau arwain i ffwrdd o'r arfordir. Ewch drwy giât mochyn arall sy'n eich

arwain ar hyd llwybr â ffens. Ewch drwy ddwy giât mochyn arall ac yna ewch i'r chwith. Cadwch y ffin ar eich dde i gyrraedd giât mochyn sy'n arwain at drac graean. Trowch i'r dde ar y trac graean i gyrraedd ffordd darmac. Ar ochr arall y ffordd ar ochr dde'r adeiladau mae yna giât mochyn ac arwydd ar gyfer Llwybr yr Arfordir.

199. Cadwch i'r ffin ar y chwith i gyrraedd giât mochyn a llwybr sy'n eich arwain i lawr at bont droed mewn cwm. Ewch dros y bont ac yna trowch i'r chwith gan gadw wrth ymyl yr afon am ryw 750 metr lle mae'r llwybr yn codi am i fyny ychydig, trwy giât ac ar hyd llwybr â gwrychoedd ar y naill ochr a'r llall. Dilynwch y llwybr hwn i mewn i Aberdaron. Trowch i'r chwith ymlaen i'r ffordd ac i lawr tuag at bont fach dros y ffordd, gan droi i'r dde ychydig cyn y bont i gyrraedd tai bach a maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dechreuodd Aberdaron fel pentref bach pysgota a dyma oedd y man gorffwys olaf i bererinion ar y daith i Enlli. Yn y 18fed a'r 19eg ganrif, datblygodd Aberdaron yn ganolfan adeiladu llongau a phorthladd oedd yn cefnogi'r diwydiant mwyngloddio lleol. Mae Aberdaron wedi dod yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer gwyliau glan môr.

200. Wedi i chi ymweld â'r eglwys, gallwch chi ddychwelyd i faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a cherdded allan o gefn y maes parcio (gan osgoi'r sianel) i'r traeth at ddechrau'r creigiau. Pan fo'r llanw'n isel, gallwch chi gerdded o flaen clogfeini i gyrraedd Porth Simdde. Pan fo'r llanw'n uwch, cerddwch i fyny'r llethr y tu ôl i'r creigiau ac, unwaith y byddwch chi ar y llwybr, trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r allt i gyrraedd giât sy'n arwain at faes parcio bach a'r ffordd.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

201. Unwaith y byddwch chi wedi mynd trwy'r giât, trowch i'r chwith ac ewch drwy giât arall ymlaen i lwybr troed llydan sy'n arwain ar hyd top y bryn yn baralel i'r traeth (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir o'r fan hon hyd at Borth Meudwy). Parhewch ar hyd y llwybr hwn, gan basio golygfan arbennig a mainc ag arysgrif arni. Ewch drwy'r giât nesaf ac i lawr y grisiau cerrig at bont dros nant fach ac ar hyd bae Porth Simdde. Cyn i chi ddod at y traeth, mae llwybr yn arwain i'r dde i fyny grisiau pren serth. Ar ôl i chi fod ar y traeth, dewch yn ôl at y llwybr hwn.

202. Ar dop y grisiau pren serth (sy'n arwain i ffwrdd o Borth Simdde), mae giât mochyn yn mynd â chi ar lwybr rhwng ffensys, gyda'r môr ar eich ochr chwith. Cadwch at y llwybr hwn am 1km, gan basio mainc ar eich ffordd a mynd trwy giât mochyn arall, yna giât mochyn arall gyda giât fferm. Arhoswch i'r chwith ar y llwybr i fynd i lawr grisiau cerrig a thrwy giât mochyn i Borth Meudwy (dyma lle mae'r cwch yn croesi draw i Ynys Enlli).

Mae Porth Meudwy yn gildraeth pysgota bach sydd wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd maith fel man cychwyn i gychod sy'n croesi draw i Ynys Enlli. Mae'n gildraeth cysgodol sy'n ei wneud yn fan perffaith i ddechrau'r siwrne.

203. Borth Meudwy, cerddwch i fyny'r lôn gyda'ch cefn at y môr am ryw 700 metr, gan basio trwy giât a heibio maes parcio tan i chi gyrraedd ffordd darmac fach. Trowch i'r chwith ar y ffordd ac ewch yn eich blaen am 80 metr i gyrraedd agoriad glaswelltog maint trac ar y dde. Cerddwch i lawr y trac glaswelltog hwn rhwng y gwrychoedd tan i chi ddod at ffordd ar yr ochr arall. Trowch i'r chwith ar y ffordd ac ewch ymlaen am 100 metr, yna trowch i'r dde i lawr y trac cyntaf gyda'r arwydd ar gyfer Pen y Maes (a Mawr). Ychydig cyn giât y tŷ ar y chwith ac i fyny cwpl o risiau cerrig mae giât mochyn sy'n mynd â chi heibio'r tŷ at gamfa.

204. Unwaith y byddwch chi dros y gamfa, ewch yn syth at ben arall y cae (ar bwys y tŷ) at gamfa arall ac, yn syth wedyn, at giât. Yna, ewch ar draws y cae nesaf i gyrraedd y giatiau at y tŷ. Cadwch y tŷ ar eich ochr dde a cherddwch heibio ochr y tŷ ac i fyny'r lôn i gyrraedd ffordd darmac. Trowch i'r chwith ar y ffordd ac arhoswch arni am 600 metr gan basio cyffordd ar y dde, tŷ ar y gornel, parc carafannau a chaffi Pen Draw'r Byd (tai bach, bwyd ac, yn bwysicaf oll, hufen ia).

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

205. Yn fuan wedi'r caffi ar y dde mae lôn sy'n arwain at dai. Cerddwch i fyny'r lôn hon ac ewch yn syth rhwng y ddau dŷ i gyrraedd giât mochyn. O'r giât mochyn, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr tan i chi gyrraedd cofeb a thrac concrit. Trowch i'r dde ar y trac a dilynwch ef i orsaf Gwylwyr y Glannau a chopa Mynydd Mawr.

206. O'r copa, cerddwch tuag at yr ynys fawr, sef Ynys Enlli, gan gadw i'r dde ar y llwybr concrit a dilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir. Ar waelod y llwybr concrit mae adfeilion concrit. O'r fan hon, dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir i gyfeiriad Ynys Enlli (dilynwch arwyddion Llwybr yr Arfordir am weddill y daith).

Dewiswyd copa Mynydd Mawr gan bobl oes Fictoria fel gwylfan ddelfrydol ar gyfer Gwylwyr y Glannau oherwydd yr olygfa wych dros y môr. Yna, cafodd ei ddefnyddio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'i uwchraddio ym 1940 i ddal offer radar, fel gwarchodfa ar gyfer y fyddin ac fel lleoliad gynnau. Cafodd y safle ei ddefnyddio gan Wylwyr y Glannau tan 1990.

207. Dilynwch yr arwyddion o amgylch y pentir tan iddyn nhw eich arwain chi i ffwrdd o'r môr at gilfach laswelltog fach, gan basio adfeilion capel/ysbyty Santes Fair fwy na thebyg.

Adeiladwyd capel Santes Fair fel y gallai'r morwyr weddïo ar Santes Fair am warchodaeth rhag dyfroedd peryglus Swnt Enlli, y môr rhwng y tir mawr ac Ynys Enlli. Yr unig beth sydd ar ôl o'r capel yw rhai twmpathau sy'n dynodi'r sylfeini.

208. **Mae Ffynnon Fair wedi'i lleoli mewn man ansefydlog a ***dylid cymryd gofal mawr os byddwch chi'n penderfynu ymweld â'r safle***. Mae Ffynnon Fair yn ffynnon dŵr croyw sy'n cael ei gorchuddio gan y llanw yn aml. Yn ôl y traddodiad, pe bai person yn gallu mynd â llond ceg (neu lond llaw) o ddŵr y ffynnon a'i gario i fyny ac o amgylch yr eglwys heb arllwys diferyn, byddai ei ddymuniad yn dod yn wir.**

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

209. Parhewch o gwmpas y pentir nesaf, sef Mynydd y Gwyddel, ac yna anelwch am i fyny gan yr arwyddion ar gyfer Llwybr yr Arfordir i gyrraedd ffens a giât uwchben Porth Felen. Ewch dros y bont a thrwy giât.

210. Yna, mae'r llwybr yn rhannu. Cadwch i'r dde ac ewch ar hyd yr arfordir i gyrraedd giât mochyn sy'n mynd â chi ymlaen ar Lwybr yr Arfordir. Pasiwch ffynnon i lawr ychydig i'r dde o'r llwybr ac yna un arall yn fuan wedyn cyn i chi basio arwydd ar gyfer Llwybr yr Arfordir. Ewch drwy giât at lwybr sy'n mynd â chi at ffens a chlogwyn mawr (cilfach Parwyd).

211. Ewch drwy giât mochyn yn y wal ac yna un arall mewn ffens cyn troi i'r dde, gan basio heibio carn Pen y Cel a chario ymlaen ar hyd y pentir. Ewch am i lawr ychydig cyn dod at giât mochyn ac ewch yn eich blaen ar y llwybr.

212. Gan edrych ymlaen tuag at Aberdaron, ewch ar y llwybr is ar y dde gan ddilyn yr arfordir a ffin y ffens. Cadwch i'r dde i ddod at gornel top wal a chadwch hon ar eich ochr dde i gyrraedd giât mochyn (byddwch chi'n dod dros gilfach Hen Borth yn fuan iawn). Ger cilfach Porth y Pistyll mae yna hen gei cerrig adfeiliedig ar lan y môr ac, yn fuan iawn wedi hynny, cymerwch ofal oherwydd mae grisiau metel yn estyn allan ar y llwybr.

213. Ewch dros bont bren a thrwy giât mochyn, gan gerdded gyda ffensys ar y naill ochr a'r llall i chi tan i chi gyrraedd giât arall. Ewch dros frig bach caregog ac yna i lawr grisiau pren i ddilyn yr arfordir. Cadwch i'r dde ac ewch i lawr y grisiau cerrig i gyrraedd Porth Meudwy (lle mae'r cwch yn mynd draw i Ynys Enlli).

214. Ewch i fyny'r grisiau cerrig ar ochr arall Porth Meudwy i gyrraedd giât mochyn. Ewch drwy dair giât mochyn arall cyn mynd i lawr grisiau cerrig at draeth Porth Simdde. O'r llwybr, cerddwch i ffwrdd o'r môr ychydig cyn dod at giât a phont droed dros y nant ac yna ewch i fyny'r grisiau cerrig at giât a mainc ag arysgrif arni lle ceir mwy o olygfeydd godidog.

215. 16. Ewch yn eich blaen o'r fainc â'r arysgrif arni i gyrraedd giât at faes parcio bach ar ymyl y ffordd. Ewch drwy'r giât ac yna i'r dde, trwy giât arall sy'n eich arwain i lawr at y traeth. Unwaith y byddwch chi ar y traeth, cadwch i'r chwith (mae'r môr ar eich ochr dde) i gyrraedd maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

Aberdaron to Porth Meudwy – Ynys Enlli | Bardsey Island

216. Parciwch ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (bydd angen arian parod neu aelodaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol arnoch i barcio), cerddwch tuag at yr adeiladau a throwch i'r dde i groesi'r bont dros y ffordd. Dilynwch y ffordd o gwmpas i'r chwith tan i chi gyrraedd eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.

Mae safle Sant Hywyn yn dyddio'n ôl i'r 5ed/7fed ganrif. Yn yr eglwys, mae cerrig beddi dau offeiriad ag arysgrifau Lladin arnynt sy'n dyddio'n ôl i'r 5ed/6ed ganrif. Adeiladwyd yr eglwys yn y 12fed ganrif ar adeg pan oedd Brenin Gwynedd yn adeiladu strwythurau cerrig cadarn yn lle llawer o'r eglwysi pren. Ychwanegwyd ail gorff i'r eglwys ar ddiwedd y 15fed ganrif, ond yn anffodus aeth yr eglwys yn adfail tan y 19eg ganrif pan gafodd ei hadnewyddu, ac mae wedi cael ei defnyddio byth ers hynny. Mae eglwys Sant Hywyn wedi bod yn hafan bwysig erioed, nid yn unig i bererinion oedd yn aros i groesi i Ynys Enlli, ond hefyd i Frenhinoedd! Rhoddodd canoniaid eglwys Sant Hywyn gwch i Gruffydd ap Cynan er mwyn iddo fynd draw i Iwerddon i ddianc rhag y Normaniaid ym 1094. Rhagor o wybodaeth.

217. Wedi i chi ymweld â'r eglwys, gallwch chi naill ai gerdded allan o'r eglwys ac i'r chwith i lawr ramp i'r traeth, cyn troi i'r dde a cherdded am tua 100 metr cyn croesi sianel fach i gyrraedd dechrau amddiffynfeydd môr creigiog, neu gallwch chi ddychwelyd i faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a cherdded allan o gefn y maes parcio (gan osgoi'r sianel) i'r traeth at ddechrau'r creigiau. Pan fo'r llanw'n isel, gallwch chi gerdded o flaen clogfeini i gyrraedd Porth Simdde. Pan fo'r llanw'n uwch, cerddwch i fyny'r llethr y tu ôl i'r creigiau ac, unwaith y byddwch chi ar y llwybr, trowch i'r dde a cherddwch i fyny'r allt i gyrraedd giât sy'n arwain at faes parcio bach a'r ffordd.

218. Unwaith y byddwch chi wedi mynd trwy'r giât, trowch i'r chwith ac ewch drwy giât arall ymlaen i lwybr troed llydan sy'n arwain ar hyd top y bryn yn baralel i'r traeth (gan ddilyn arwyddion Llwybr yr Arfordir). Parhewch ar hyd y llwybr hwn, gan basio golygfan arbennig a mainc ag arysgrif arni.

219. Ewch drwy'r giât nesaf ac i lawr y grisiau cerrig at bont dros nant fach ac ar hyd bae Porth Simdde. Cyn i chi ddod at y traeth, mae llwybr yn arwain i'r dde i fyny grisiau pren serth. Ar ôl i chi fod ar y traeth, dewch yn ôl at y llwybr hwn.

Llwybr Cadfan– Taith Lawn

220. Ar dop y grisiau pren serth (sy'n arwain i ffwrdd o Borth Simdde), mae giât mochyn yn mynd â chi ar lwybr rhwng ffensys, gyda'r môr ar eich ochr chwith. Cadwch at y llwybr hwn am 1km, gan basio mainc ar eich ffordd a mynd trwy giât mochyn arall, yna giât mochyn arall gyda giât fferm. Arhoswch i'r chwith ar y llwybr i fynd i lawr grisiau cerrig a thrwy giât mochyn i Borth Meudwy (dyma lle mae'r cwch yn croesi draw i Ynys Enlli).

Mae Porth Meudwy yn gildraeth pysgota bach sydd wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd maith fel man cychwyn i gychod sy'n croesi draw i Ynys Enlli. Mae'n gildraeth cysgodol sy'n ei wneud yn fan perffaith i ddechrau'r siwrne.

I archebu croesiad, ffoniwch neu anfonwch neges destun at Colin ar 07971 769895, a gadewch neges gan gynnwys eich rhif ffôn.

https://bardseyboattrips.com/